



Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant 2023-24

Dyddiad Cymeradwyo gan y Llywodraethwyr: Medi 2022

(Addasiad wedi ei gymeradwyo 2.12.22)

Dyddiad Cymeradwyo Nesaf: Medi 2024

(Bydd unrhyw newidiadau cyfreithiol yn golygu y bydd y polisi yn cael ei addasu a'i ail gyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethu.)

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Personél Diogelu a Rhifau Cyswllt

Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb dros Ddiogelu:	Donna Roberts
Pennaeth/ Arweinydd Diogelu Dynodedig	Rhian Thomas
Dirprwy Unigolyn Diogelu:	Rhian Thomas/Robert Kimberley/Elain Hughes
2il Ddirprwy Unigolyn Diogelu:	
3ydd Dirprwy Unigolyn Diogelu:	
Swyddog Diogelu'r Gwasanaethau Addysg	Wayne Wheatley wayne.wheatley@denbighshire.gov.uk 01824 708064
Desg Gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg	01824 708064
Children and Family Services CFS Children's Gateway	01824 712200
Unrhyw gyfeiriad i'w yrru at: Tîm Dyletswydd Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa – 8.30 am – 5 pm Llun-lau / Gwener 4.30 pm Yr Uned Ddiogelu ac Adolygu:	cfsgateway@denbighshire.gov.uk 0345 0533116 01824 708391

Bydd mynediad i'r polisi hwn gan bob aelod o staff ar Sharepoint a byddant yn arwyddo eu bod wedi darllen a deall y polisi

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Cynnwys

1. 5
2. 5
3. **Error! Bookmark not defined.**
4. **Error! Bookmark not defined.**
5. 9
- 5.1. 9
- 5.2. 10
- 5.3. 13
- 5.4. 15
6. 17
7. 18
8. 20
9. 21
10. 23
11. 23
12. 24
13. 25
14. 26
15. **Error! Bookmark not defined...19**
16. 27

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

17.	28	
18.	29	
18.1.	Error! Bookmark not defined.	
18.2.	Local Authority www.denbighshire.gov.uk	3018.3. 31
19.	31	
20.	33	
21.	34	
22.	Appendix C - Indicators of Harm	49
23.	45	
24.	47	
25.	48	
26.	49	
27.	50	
28.	Error! Bookmark not defined.	
29.	51	
30.	52	
31.	67	
32.	68	

1. (Cyf 4) Disgrifiad o'r Ysgol

Mae Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws Gwerful Goch yn ddwy ysgol wedi eu ffederaleiddio.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

2. (Cyf 4) Disgrifiad o Lunio Polisi a'r Broses Ymgynghori

Mae'r polisi hwn yn ystyried y dogfennau allweddol canlynol:

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a dogfennau eraill a restrir yng Nghylchlythyr 158/2015
- Diogelu plant a phobl ifanc gyda'n gilydd wrth ailgodi ar ôl Covid-19 – canllawiau anstatudol ar gyfer ymarferwyr Gorffennaf 2020
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2020 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol
- Gweithdrefnau ar gyfer Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn ac Anghymwystra yn y Gweithlu Addysg yng Nghymru, Canllawiau 168/2015
- Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2014
- Canllawiau Llywodraeth Cymru Polisi Diogelu 'Enghreifftiol'
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Cyngor Sir Ddinbych – Adolygiad o Amddiffyn Plant - 2014
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - 2014
- Fframwaith Rhwng Cyfoedion 2022 CSDd

Rhagarweiniad

- Cefnogodd yr Awdurdod Lleol ysgolion drwy baratoi polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad gyda staff yn dilyn Adolygiad o Ddiogelu ac Amddiffyn Plant yn Sir Ddinbych yn 2014.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng Cyngor Sir Ddinbych, cynrychiolwyr arweiniol o grwpiau clwstwr ysgol, undebau, y cwnsler cyfreithiol ac arbenigwyr annibynnol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymgynghori â Chyrff Llywodraethu ac yn benodol gyda'r

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Llywodraethwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant a'r Swyddog Amddiffyn Plant enwebedig. Casglwyd, dadansoddwyd ac ystyriwyd y safbwyntiau a'r farn o'r ymarfer ymgynghori trylwyr hwn a datblygwyd polisi drafft diwygiedig.

- Rhannwyd y polisi terfynol yn ffurfiol gyda Bwrdd Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych a'r Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol [Grŵp AYP BRhDP Gogledd Cymru] ar 18 Mehefin 2015. Darparwyd y Polisi Diogelu 'Enghreifftiol' yn ffurfiol i bob ysgol ar 18 Mehefin 2015. Adolygwyd y polisi hwn rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mehefin 2016, ac fe'i darparwyd yn ffurfiol i bob ysgol ar 1 Medi 2016.

Cyflwynodd, ENW, Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol bolisi'r **ysgol** wedi'i adolygu a'i ddiwygio i'r Corff Llywodraethu ar DYDDIAD lle cafodd ei gymeradwyo a'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.

3. (Cyf 5) Cyflwyniad

Beth yw Diogelu?

Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed ac addysgu'r rheiny o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Diffinnir diogelu a hybu lles plant sy'n mynychu ysgol at ddibenion y polisi hwn fel a ganlyn:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed;
- atal amhariad i iechyd neu ddatblygiad plant;
- sicrhau bod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sy'n gyson â darpariaeth o ofal diogel ac effeithiol; a
- Cymryd camau gweithredu i alluogi pob plentyn i gyflawni'r canlyniadau gorau

Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Ac Adran 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae diogelu plant yn hollbwysig yn YSGOL BRO ELWERN AC YSGOL BETWS GWERFUL GOCH. Fe ddylai'r ysgol ddarparu amgylchedd diogel a chynhwysol lle gall plant a phobl ifanc ffynnu a thyfu. Er mwyn cyflawni hyn mae ystod eang o fesurau wedi eu rhoi mewn grym, drwy bolisiau, fel yr amlinellir yn Adran 17.

Mae diogelu plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod yn anochel yn golygu ansicrwydd, amwysedd a ffaeledigrwydd o ganlyniad i wybodaeth gyfyngedig, rhagdybiaethau amherffaith ynglŷn â lles y plentyn yn y dyfodol ac nid oes yna ddull pendant o gydbwyso hawliau gwrthdrawiadol y rhieni a'r plant. Ond mae'n egwyddor sylfaenol fod amddiffyn plant rhag niwed yn gyfrifoldeb yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Mae rhieni a'r cyhoedd yn disgwyl y safonau uchaf gan ymarferwyr i ddiogelu plant, ond mae cyflawni'r rhain yn her i bawb sy'n gweithio yn y maes hwn.

Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chorff Llywodraethu YSGOL BRO ELWERN AC YSGOL BETWS GWERFUL GOCH yn llwyr gydnabod y cyfraniad mae'n ei wneud i amddiffyn plant a diogelu a'r nod yw nid yn unig lleihau'r perygl i blant ond i sicrhau bod eu hiechyd a'u lles ar ei orau. Mae'r termau 'amddiffyn plant' a 'diogelu' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac am y rheswm hwn mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio'r termau; gellir gweld y diffiniadau yn **Atodiad A**.

Mae'r Strwythur Arweinyddiaeth Diogelu Ysgol fel a ganlyn:

Corff Llywodraethu	-	Trosolwg Strategol
Pennaeth	-	Arweinyddiaeth Gyffredinol
Arweinydd Diogelu Dynodedig	-	Rheoli a Gweinyddu Gweithredol
Yr Holl Staff	-	Dyletswydd gyfreithiol i gofnodi ac adrodd am unrhyw bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant

Mae yna dair prif elfen, yn arbennig o ran diogelu plant:

- Atal drwy'r addysgu a'r gefnogaeth fugeiliol a gynigir i ddisgyblion
- Gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu achosion tybiedig o gam-drin. O ganlyniad i'n cyswllt dyddiol gyda phlant, mae staff ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar yr arwyddion allanol o gam-drin

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Cefnogaeth i ddisgyblion a allai fod wedi eu cam-drin.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl lywodraethwyr, staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Mae athrawon, cymhorthwyr addysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion a staff swyddfa i gyd yn gallu bod yn bwynt cyntaf o ran datgelu i blentyn.

Yn ogystal â bod yn berthnasol i'r rhestr o bobl a nodir uchod, mae'n gosod rhwymedigaethau personol arnynt.

Mae'n RHAID i bob aelod o staff gofnodi ac adrodd am unrhyw broblemau amddiffyn plant, pryderon neu amheuon i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig gyda chyn lleied o oedi ag sy'n bosibl ac ar ddiwrnod y pryder, ynghyd ag atgyfeiriad neu gyswllt â'r Gwasanaeth Porth Plant a Theuluoedd (gweler Atodiad L)

Nid mater o ddewis ar ran yr unigolyn yw hyn ond mae'n ddyletswydd ar ymarferwyr unigol i roi gwybod am bryderon fel yr amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

Y Ddyletswydd Prevent – Beth i'w wneud os oes gennych chi bryder am unigolyn?

Sylw dyledus – mae'n golygu dylai'r ysgol roi pwysau priodol ar yr angen i atal pobl rhag cael eu denu i mewn i derfysgaeth.

Diffinnir radicaleiddio ac eithafiaeth fel y broses lle bydd unigolyn yn dechrau cefnogi terfysgaeth a mathau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth (Strategaeth Prevent Llywodraeth EM)

Os oes gan aelod o staff bryder am unigolyn neu deulu penodol fe ddylid dilyn gweithdrefnau diogelu arferol eich ysgol, gan gynnwys trafod y pryder Prevent gyda'ch arweinydd diogelu dynodedig yn yr ysgol a gwneud atgyfeiriad i dimau atgyfeirio gofal cymdeithasol plant neu oedolion eich awdurdod lleol.

Fe allwch hefyd gysylltu â Swyddog Prevent Heddlu Gogledd Cymru a all siarad â chi yn gyfrinachol ynglŷn ag unrhyw bryderon a'ch helpu i gael mynediad i gymorth a chynghor.

4. (Cyf 6) Rhwymedigaethau Diogelu Awdurdod Lleol

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant. [Adran 175 Deddf Addysg 2002].

Fe fydd yr Awdurdod Lleol yn:

- Monitro cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Sicrhau bod cyngor, canllawiau a hyfforddiant ar gael fel bo'r angen

5. (Cyf 6) Rhwymedigaethau Diogelu Ysgolion

5.1 Y Corff Llywodraethu: (Cyf 6)

- Sicrhau bod gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddelio â materion diogelu ac amddiffyn plant.
- Sicrhau bod yr ysgol yn dilyn prosesau recriwtio diogel a gweithio'n agos gyda'ch darparwr gwasanaeth wrth weithredu a monitro'r gwiriadau cyflogaeth hyn.
- Sicrhau bod gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddelio â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn aelodau o staff.
- Sicrhau bod corff llywodraethu'r ysgol yn cael diweddariadau bob tymor am gamau gweithredu diogelu a mesurau yn yr ysgol a bod y rhain yn cael eu cofnodi yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu.
- Sicrhau bod asesiad risg diogelu safle yn cael ei gyflawni bob blwyddyn yn unol â gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.
- Monitro cydymffurfedd â'r polisiau a gweithdrefnau hynny.
- Sicrhau bod unrhyw ddiffygion o ran trefniadau amddiffyn plant yn cael eu dwyn i sylw ac yn cael eu cywiro heb unrhyw oedi.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant priodol sy'n gymesur â'u gradd, yn unol â strategaeth hyfforddi'r ALL **Atodiad K**.
- Sicrhau bod aelod o'r Corff Llywodraethu yn cael ei enwebu ar gyfer cysylltu â'r ALL ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol, os yw honiadau o gam-drin yn cael eu gwneud yn erbyn y Pennaeth.
- Adolygu eu polisiau a gweithdrefnau bob blwyddyn.

5.2 (Cyf 7) Y Pennaeth:

- Sicrhau bod yna uwch aelod dynodedig o staff, sydd wedi dilyn hyfforddiant priodol a phellach sy'n ofynnol i'r rôl. Bydd y rôl hon yn cael ei galw'n Arweinydd Diogelu Dynodedig; bydd enw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r Dirprwy Unigolyn Diogelu yn cael eu harddangos yn glir o amgylch yr ysgol.
- Sicrhau bod Arweinydd Diogelu a enwyd bob amser ar y safle yn yr ysgol neu fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion diogelu/Amddiffyn Plant gan Unigolyn Diogelu a enwyd wedi ei hyfforddi.
- Sicrhau bod trefniadau ffurfiol mewn grym i gyflenwi holl wyliau'r ysgol. Mae'n rhaid rhannu'r trefniadau hyn gyda'r Uned Diogelu ac Adolygu. (Gweler y rhif cyswllt ar dudalen flaen y polisi).
- Sicrhau bod unrhyw fater yn cael ei gyfeirio ar y diwrnod y codir y pryder i'r ysgol. Os oes ansicrwydd, mae cyngor ar gael bob amser drwy'r Porth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd neu Ddesg Gymorth Gwaith Cymdeithasol Addysg. (Gweler y rhifau cyswllt ar dudalen flaen y polisi).
- Gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu, a fydd yn goruchwyllo polisi diogelu ac amddiffyn plant ac arferion yr ysgol.
- Sicrhau bod staff gyda chyfrifoldeb dros ddiogelu yn derbyn cefnogaeth ac arfer myfyriol yn rheolaidd drwy ddefnyddio Dolen Ganllawiau Fframwaith Cymorth CSDd:

<https://hwbwave15.sharepoint.com>

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Gweithio gyda holl aelodau'r Corff Llywodraethu i ddeall a chyflawni'r holl gyfrifoldebau.
- Cydnabod rôl yr Arweinydd Diogelu Dynodedig a threfnu cefnogaeth a hyfforddiant. Mae'r Arweinydd Diogelu Dynodedig o fewn yr ysgol yn ffigwr allweddol a bydd yn derbyn hyfforddiant diweddar, uwch ac ychwanegol yn unol â'r Strategaeth Hyfforddiant Awdurdod Lleol (**Atodiad K**)
- Bydd y Pennaeth wedi darllen a deall Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.
- Sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
 - Enw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a beth yw eu rôl,
 - Enw'r Llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu,
 - Bod ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol unigol dros gyfeirio pryderon diogelu ac amddiffyn plant i'r arweinydd diogelu dynodedig o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt,
 - Bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros gyfeirio pryderon i'r Dirprwy Unigolyn Diogelu os nad yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gael,
 - Bod ganddynt ddyletswydd i ddilyn pryderon a gwneud atgyfeiriadau os oes angen.
- Sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all fod yn rhoi gwybod am gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth.
- Sicrhau bod rhieni'n deall y cyfrifoldeb sydd ar yr ysgol a'r staff yn ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu drwy nodi ei hymrwymadau ym mhrosbectws yr ysgol a dogfennau/taflenni eraill o'r fath.
- Darparu hyfforddiant gorfodol i'r holl staff fel eu bod yn ymwybodol:
 - o'u Cyfrifoldeb Personol,
 - o Weithdrefnau'r Ysgol y Cytunwyd Arnynt,
 - o'r Angen i Fod yn Effro i Adnabod Achosion o Gam-drin,
 - o Sut i Gefnogi Plentyn sy'n Dweud Wrthyhych am Gamdriniaeth a Chamfanteisio
- Mae **Atodiad B** yn darparu diffiniadau o gamdriniaeth/esgeulustod/niwed sylweddol

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Mae **Atodiad C** yn darparu dangosyddion camdriniaeth/esgeulustod/niwed
- Mae **Atodiad D** yn darparu cyngor ar gyfrifoldebau staff – beth i'w wneud?
- Mae **Atodiad E** yn darparu cyngor ar gamau i'w cymryd pan fo bwriad i siarad â phlentyn i ganfod p'un ai a oes yna bryder yn bodoli yn ymwneud ag amddiffyn plant
- Mae **Atodiad F** yn darparu cyngor ar gamau i'w cymryd wrth gyfarfod person ifanc i ganfod a yw'r protocol YRhN yn gymwys neu a oes yna berthynas rywiol sy'n peri risg o niwed iddynt
- Sicrhau bod Hysbysiad yn cael ei anfon at y Swyddog Diogelu Addysg a'r gweithiwr cymdeithasol a enwyd ar gyfer y Gwasanaethau Plant Lleol a'r Swyddog Plant sy'n Derbyn Gofal Addysg ar gyfer y plentyn lle mae'r plentyn yn byw os bydd yr ysgol:
 - yn gorfod gwahardd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant, naill ai am gyfnod byr neu'n barhaol,
 - yn gorfod gwahardd disgybl sy'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal, naill ai am gyfnod byr neu'n barhaol,
 - yn gweld bod disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad.
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol ac ysgolion fel sy'n ofynnol, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion amddiffyn plant, gan gynnwys presenoldeb mewn adolygiad cychwynnol a chynadleddau achos, grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig cynhwysfawr i'r cynadleddau. Bydd ysgolion yn mynychu'r cyfarfodydd uchod ac ni ddylid dirprwyo'r cyfranogiad hwn ar ôl y gynhadledd achos cychwynnol h.y. rhaid i ysgolion fynychu'r holl gyfarfodydd yn y dyfodol am blentyn penodol ar ôl ymrwymo i fynychu cyfarfodydd grŵp craidd.
- Gweithredu a rhannu gwybodaeth a rennir gan atgyfeiriadau Ymgyrch Encompass Heddlu Gogledd Cymru gyda staff sydd angen gwybod yn ddyddiol.
- Sicrhau y cedwir cofnodion ysgrifenedig yn ymwneud â phryder am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad, unigolion sy'n bresennol yn ystod trafodaethau, camau a gymerwyd, y rhesymau y cafodd unrhyw benderfyniadau eu gwneud gan gynnwys, os mai'r penderfyniad yw i beidio rhoi gwybod), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r Gwasanaethau Plant yn syth, **Atodiad D**.
- Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau wedi'u cloi (gweler y Weithdrefn Cadw Cofnodion).
- Glynu at y weithdrefn a nodir yng nghylchlythyr canllawiau Llywodraeth Cymru pan wneir honiad yn erbyn aelod o staff, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2020 - Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol, a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 009/2014 – (Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill).

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5 a gweithio'n agos gyda'ch darparwr gwasanaeth wrth weithredu a monitro'r gwiriadau cyflogaeth hyn.

5.3 (Cyf 9) yr Arweinydd Diogelu Dynodedig:

- Ymgymryd â'r hyfforddiant priodol ac uwch sy'n ofynnol i'r rôl hon, fel y nodir yn y strategaeth hyfforddi, **Atodiad K**.
- Bod ar safle'r ysgol neu sicrhau bod trefniadau priodol ar waith yn eu habsenoldeb, i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion diogelu/amddiffyn plant gan Unigolyn Diogelu Dynodedig wedi ei enwi ac wedi'i hyfforddi.
- Cyfeirio'r mater ar y diwrnod mae'r pryder yn cael ei godi gyda nhw. Os oes ansicrwydd, mae cyngor ar gael bob amser drwy Wasanaeth y Porth Plant a Theuluoedd neu Ddesg Gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg. (Gweler y rhifau cyswllt ar dudalen flaen y polisi).
- Gweithio'n agos gyda'r holl staff i oruchwylio polisi diogelu ac arferion yr ysgol.
- Cefnogi staff ysgol gyda chyfrifoldeb dros ddiogelu gan ddefnyddio Canllawiau Fframwaith Cefnogi CSDd.
- Gweithio gyda holl aelodau'r Corff Llywodraethu i ddeall a chyflawni cyfrifoldebau'r ysgol.
- Hysbysu'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr am unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r weithdrefn neu ofynion hyfforddiant pellach.
- Bod yn effro i arwyddion o gam-drin a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all fod yn rhoi gwybod am gam-drin a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth.
- Ar ôl derbyn Hysbysiad, sicrhau bod yr hysbysiad hefyd yn cael ei anfon at weithiwr cymdeithasol a enwyd y Gwasanaethau Plant Lleol neu'r Swyddog Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal lle mae'r plentyn yn byw os yw'r ysgol:
 - yn gorfod gwahardd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant, naill ai am dymor penodol neu'n barhaol,
 - yn gorfod gwahardd disgybl sy'n 'Blentyn sy'n Derbyn Gofal, naill ai am dymor penodol neu'n barhaol,

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- yn gweld bod disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad.
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol ac ysgolion fel sy'n ofynnol, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion amddiffyn plant, gan gynnwys presenoldeb mewn adolygiad cychwynnol a chynadleddau achos, grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau. Bydd ysgolion yn mynychu'r cyfarfodydd uchod ac ni ddylid dirprwyo'r cyfranogiad hwn ar ôl y gynhadledd achos cychwynnol h.y. rhaid i ysgolion fynychu'r holl gyfarfodydd yn y dyfodol am blentyn penodol ar ôl ymrwymo i fynychu cyfarfodydd grŵp craidd.
- Rhannu gwybodaeth a dderbynnir gan Ymgyrch Encompass i staff sydd angen gwybod am bryderon gyda phlentyn a amlinellir yn yr atgyfeiriad gan Heddlu Gogledd Cymru.
- Sicrhau y cedwir cofnodion ysgrifenedig yn ymwneud â phryder am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad, unigolion sy'n bresennol yn ystod trafodaethau, camau a gymerwyd, y rhesymau y cafodd unrhyw benderfyniadau eu gwneud gan gynnwys, os mai'r penderfyniad yw i beidio rhoi gwybod), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol yn syth, **Atodiad D**.
- Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau wedi'u cloi (gweler y Weithdrefn Cadw Cofnodion).
- Glynu at y weithdrefn a nodir yng nghylchlythyr canllawiau Llywodraeth Cymru pan wneir honiad yn erbyn aelod o staff, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2020 - Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol, a Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 009/2014 – (Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill).
- Sicrhau bod y gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5
- Bydd yr arweinydd diogelu dynodedig wedi darllen a deall Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill

5.4 (Cyf 11) Yr holl staff:

- Mae gan bob aelod o staff ddyletswydd cyfreithiol i gofnodi ac adrodd am unrhyw broblemau amddiffyn plant, pryderon neu amheuan i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig cyn gynted ag y caiff ei nodi ac y mae'n ymarferol bosibl ac ar y diwrnod y caiff y pryder ei nodi i

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Borth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (gweler Atodiad L). **Nid yw hyn yn fater o ddewis yr unigolyn. Mae yna ddyletswydd gyfreithiol i gofnodi a rhoi gwybod am eich pryderon ar y diwrnod y codwyd yr honiad/pryder.**

- Deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.
- Bod yn gyfarwydd gyda a dilyn gweithdrefnau a phrotocolau'r ysgol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant a gwybod â phwy i gysylltu yn yr ysgol i fynegi pryderon ynghylch lles plentyn.
- Bod yn effro i arwyddion o gam-drin ac esgeulustod.
- Bod â mynediad at a chydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.
- Deall yr egwyddorion a'r arfer a gaiff eu cynnwys yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
- Wedi derbyn hyfforddiant diogelu i lefel sy'n gymesur â'u rôl a'u cyfrifoldebau.
- Gwybod pryd a sut i gyfeirio unrhyw bryderon ynghylch cam-drin plant ac esgeulustod at y Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu.
- Gwybod **na** ddylid byth gofyn i blentyn, rhiant, gofalwr, perthynas neu aelod o'r cyhoedd sy'n mynegi pryderon ynghylch lles plentyn wrth weithiwr proffesiynol a / neu weithiwr asiantaeth i wneud hunan-atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu. Mae'n rhaid i'r gweithiwr proffesiynol a/neu asiantaeth wneud yr atgyfeiriad.
- Gwybod os oes gan unrhyw un wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu yn debygol o fod mewn perygl o niwed, mai eu dyletswydd gyfreithiol nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu, sydd â dyletswyddau statudol a phwerau i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen.

Yn ychwanegol at eu dyletswydd a'u cyfrifoldeb i wneud atgyfeiriadau, mae yna ffyrdd eraill y gall pawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gyfrannu at ddiogelu plant a'r broses amddiffyn plant:

- Trin lles y plentyn o'r pwys mwyaf

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Bod yn effro ac yn ymwybodol o'r risgiau y gall camdrinwyr unigol neu gamdrinwyr posibl eu hachosi i blant
- Cydnabod pan fydd rhiant neu ofalwr wedi cyfaddawdu gallu i fagu plant, hynny yw, problemau a allai effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal effeithiol a phriodol, neu a allai olygu eu bod yn peri risg o niwed i blentyn
- Bod yn ymwybodol o effaith ac effeithiau cam-drin ac esgeulustod ar blant
- Bod yn ymwybodol y gall plant fod yn agored i gamfanteisio troseddol a rhywiol drwy linellau sirol, unigolion a gangiau
- Bod â dealltwriaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sy'n sail i'r broses o asesu anghenion, cynllunio gwasanaethau ac adolygu effeithiolrwydd darparu gwasanaeth yn ystod pob cam o weithio gyda phlant a theuluoedd
- Rhannu a helpu i ddadansoddi gwybodaeth fel y gellir gwneud asesiad cytbwys o anghenion ac amgylchiadau'r plentyn
- Cyfrannu fel sy'n ofynnol i ddarparu cymorth neu wasanaeth penodol i'r plentyn neu aelod o'i deulu fel rhan o gynllun y cytunwyd arno a chyfrannu at adolygu cynnydd plentyn
- Cyfrannu fel y bo angen ar bob cam o'r broses amddiffyn plant
- Cyfrannu at adolygu canlyniadau ar gyfer y plentyn yn erbyn amcanion penodol a rennir yn rheolaidd
- Cydweithio â'r rhieni oni bai bod hyn yn anghyson â'r angen i sicrhau diogelwch y plentyn
- Bod yn ymrwymedig i gydweithredu'n llawn gyda'r holl asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

Mae'r asiantaethau partner a restrir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn rhannu cyfrifoldeb statudol dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac mae dyletswydd gyfreithiol ar bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio i'r asiantaethau hynny i roi gwybod am bryderon.

Nid yw hyn yn fater o ddewis yr unigolyn.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu am achos a amheuir o gam-drin plentyn, sef yr asiantaethau gyda'r NSPCC sydd â phwerau statudol i ymchwilio i achosion a amheuir o gam-drin. Ni ddylai asiantaethau gynnal eu hymholiadau amddiffyn plant mewnol eu hunain, ond yn hytrach atgyfeirio eu pryderon. Os yw'r pryder yn ymwneud ag aelod o staff, gweler Adran 10 y polisi hwn.

6. (Cyf 13) Gwasanaethau Plant

Mae'r Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd yn darparu cymorth cynnar drwy wybodaeth, cyngor a chymorth i blant, gofawyr a'u teuluoedd yn Sir Ddinbych. Y Porth Cefnogi yw'r pwynt mynediad sengl i aelodau'r cyhoedd neu weithwyr proffesiynol i gysylltu â nhw os oes ganddynt unrhyw bryderon am blant, pobl ifanc neu deuluoedd diamddiffyn.

Fe fydd yr holl atgyfeiriadau Amddiffyn Plant yn cael eu hadolygu a'u prosesu o fewn un diwrnod gwaith. Os yw eich pryderon yn ymwneud â phlentyn neu unigolyn ifanc sydd mewn perygl uniongyrchol o niwed, yna fe'ch cynghorir i roi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru ar 101 neu 999 yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa. Ar gyfer unrhyw bryderon Amddiffyn Plant a Diogelu eraill rydym yn eich cynghori i gyflwyno eich atgyfeiriad yn electronig ac wedi hynny ffonio'r Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd, bydd hyn o gymorth iddynt o ran blaenoriaethu atgyfeiriadau yn ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu.

Sut i gysylltu â'r Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd

Y rhif gwybodaeth, cyngor a chymorth yw **01824 712200**

Gellir anfon ymholiadau dros e-bost at unrhyw un o'r canlynol hefyd:

cfsgateway@denbighshire.gov.uk (e-bost lefel diogelwch arferol neu gellir cael mynediad drwy gyfnewidfa data ddiogel Switch Egress)

cfsgateway@denbighshire.gcsx.gov.uk (E-bost diogel – allrwyd cyswllt diogel Llywodraeth y DU)

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

7. (Cyf 13) Atal

Dan Ddeddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 mae gan ysgolion ddyletswydd i adnabod yn gynnar anghenion yr holl blant / pobl ifanc gyda'r diben o atal ac amddiffyn. Mae'r ddolen ar sut i godi pryderon isod:

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/health-and-social-care/children-young-people-and-families/report-a-child-at-risk.aspx>

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch da, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn dibynadwy yn helpu i ddiogelu plant. Bydd yr ysgol felly yn:

- sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad ac y gwrandewir arnynt
- sicrhau eu bod yn gwybod pwy yw'r holl oedolion yn yr ysgol y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu mewn trafferthion
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer ABCh sy'n arfogi plant â'r sgiliau maent eu hangen i aros yn ddiogel rhag camdriniaeth a gwybod pwy i droi atynt am gymorth

Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn arbennig o ran sgiliau gofal plant a rhianta (fel y bo'n briodol). Dylai fod yna le preifat lle gall plant/pobl ifanc siarad â'r oedolyn priodol. Ni ddylai gweithwyr proffesiynol fynd i'r lle preifat hwn ar eu pen eu hunain gyda'r plentyn/person ifanc.

Y Ddyletswydd Prevent – (Cyf 13)

Dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 mae gan yr ysgol ddyletswydd statudol i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. I ysgolion mae hyn yn golygu:

- Addysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol myfyrwyr ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd ac mae'n rhaid iddo hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Darparu mannau diogel lle gall myfyrwyr ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgaeth a dysgu sut i herio'r syniadau hyn
- Bod yn ystyriol o'u dyletswyddau presennol i atal gwthio syniadau gwleidyddol a sicrhau cyflwyniad cytbwys o faterion gwleidyddol
- Amddiffyn myfyrwyr rhag eithafiaeth a'r risg o radicaleiddio yn yr un modd ag y maent yn eu gwarchod rhag ffurfiau eraill o niwed a chamdriniaeth.

Dyma un elfen o fewn ein trefniadau cyffredinol yn yr ysgol i ddiogelu a hyrwyddo lles yr holl blant yn unol â'n dyletswyddau statudol. Mae copi o'n polisi atal ar gael ar wefan yr ysgol a gwefan Cyngor Sir Ddinbych yn yr adran ar addysg.

Y Ddyletswydd Prevent – Beth i'w wneud os oes gennych chi bryder

Os oes gan aelod o staff bryder am unigolyn neu deulu penodol fe ddylid dilyn gweithdrefnau diogelu arferol eich ysgol, gan gynnwys trafod y pryder Prevent gyda'ch arweinydd diogelu dynodedig yn yr ysgol a gwneud atgyfeiriad i dimau atgyfeirio gofal cymdeithasol plant neu oedolion eich awdurdod lleol.

Fe allwch hefyd gysylltu â Swyddog Prevent Heddlu Gogledd Cymru neu Swyddog Cyswllt yr Heddlu ar gyfer yr Ysgol a all siarad â chi yn gyfrinachol ynglŷn ag unrhyw bryderon a'ch helpu i gael mynediad i gymorth a chyngor.

8. (Cyf 14) Gweithdrefnau

Byddwn yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 sydd wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Plant Lleol Gogledd Cymru. Fe ellir lawrlwytho Gweithdrefnau Diogelu Cymru fel Ap y gall staff ysgol gael mynediad ato'n fwy cyfleus. Gweler y ddolen isod:

<https://www.diogelu.cymru/>

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Os oes angen atgyfeiriad yna cliciwch ar y ddolen isod.

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/adrodd-plentyn-sydd-mewn-perygl.aspx>

Fe fyddwn yn ystyried y cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol a amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 (Geirfa)

- Camfanteisio ar Blant, Camfanteisio'n Droseddol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Mae Plentyn sydd Mewn Perygl yn disgrifio unigolyn o dan 18 oed sy'n profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed
- Cam-drin Domestig a Thrais
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Masnachu
- Trais yn erbyn Menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Fe fyddwn hefyd wedi ystyried canllawiau gweithdrefnol unigol ar:

- Y Canllawiau Prevent – Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (Dyletswydd Statudol ysgolion)
- Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc sydd ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches

Dolen i'r Eirfa

<https://www.diogelu.cymru/>

Dylid caniatáu i bob plentyn sy'n cael eu cyfweld fel rhan o unrhyw ymchwiliad diogelu, i fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â phwy fydd yr oedolyn priodol (os bydd unrhyw un) mewn sefyllfa cyfweliad. Rhaid ceisio cyngor gan Borth y Gwasanaeth Plant o ran cyfranogiad priodol y teulu neu staff ysgol o ran presenoldeb mewn unrhyw gyfweliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Cyfarfod Strategaeth Gweithwyr Proffesiynol

Pwrpas cyfarfod strategaeth yw rhannu a thrafod yn fanwl yr holl wybodaeth sydd gan yr ysgol yn ymwneud â natur eich pryderon a rhannu safbwyntiau a phryderon am gefnogaeth gwasanaethau gyda theulu.

Sylwer

Nid yw cyfarfod strategaeth yn cael ei ddefnyddio yn lle gwneud yr atgyfeiriadau priodol i'r gwasanaethau plant am blentyn.

Bwriad y broses hon yw ymdrin ag achosion lle mae tystiolaeth y gallai gweithio gyda'n gilydd yn well ar draws y gwasanaethau fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr ysgol.

Gallai'r strategaeth a bennir gan ysgol o bosibl leihau'r amser a'r adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio i gysylltu ag asiantaethau unigol am gyngor a chefnogaeth ac i roi diweddariadau ar ddisgybl, drwy ddarparu cynllun cydlynol y gallai'r ysgol, asiantaethau a'r teulu gytuno arno er lles gorau'r plentyn.

9. (Cyf 15) Cefnogaeth

Dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 newydd, mae gan ysgolion ddyletswydd i asesu a chefnogi'r plentyn yn nhermau cryfderau a gwendidau o ran cadw'r plentyn yn ddiogel.

Gall plant sy'n cael eu cam-drin neu sy'n dyst i drais ei chael yn anodd i ddatblygu ymdeimlad o hunanwerth ac i edrych ar y byd fel lle caredig ac ystyrlon. Fe allant deimlo'n aneffeithiol, teimlo cywilydd a rhyw ymdeimlad o hunan-feio a gallant gael eu heffeithio'n fawr.

Mae'n bosibl mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny pan yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol a herfeiddiol neu gallant fynd i'w cragen.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae'n rhaid i'r ysgol gefnogi'r disgybl drwy gynllun diogelwch sydd wedi'i ddatblygu'n glir ac yn cael ei ddeall gan yr holl bartïon a dylid cofnodi'r camau gweithredu pendant. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant gyda chyswllt a chefnogaeth gan y gwasanaethau comisiynu priodol.
- Bydd ethos yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i'r disgyblion
- Nod polisi ymddygiad yr ysgol yw cefnogi disgyblion diamddiffyn yn yr ysgol. Bydd pob aelod o staff yn cytuno ar ddull cyson, sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond nad yw'n niweidio synnwyr o hunanwerth y disgybl.
- Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhywfaint o ymddygiad yn annerbyniol, ond ei fod/bod yn cael eu gwerthfawrogi ac nad oes bai arnynt am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd.
- Y cyswllt gydag asiantaethau perthnasol eraill. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau cefnogi eraill fel y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaethau Cefnogi Ymddygiad, y Gwasanaeth Lles Addysg a'r Gwasanaeth Eiriolaeth.
- Cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Plant cyn gynted ag y bydd yna bryder.

Pan fydd disgybl ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn gadael yr ysgol, bydd rhaid i'r ysgol drosglwyddo'r ffeil wybodaeth diogelu/amddiffyn plant i'r ysgol newydd ar unwaith a hysbysu Pennaeth yr ysgol newydd, a'r Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig yn y Gwasanaethau Plant. Mae'n rhaid anfon unrhyw ffeil ddiogelu ar blentyn ar wahân i ffeil ysgol y plentyn i sicrhau cyfrinachedd a marcio'r ffeil ddiogelu at sylw Pennaeth yr ysgol newydd. Mae dolen Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn amlinellu cyfrifoldebau'r sefydliad o ran rhannu gwybodaeth sensitif. <http://www.waspi.org/hafan>

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

10. (Cyf 16) Plant ag Anghenion Arbennig / Ychwanegol (ADY)

Yn ystadegol, mae plant ag anawsterau ymddygiadol ac anabledau yn fwyaf agored i gamdriniaeth. Bydd staff yr ysgol sy'n ymdrin â phlant ag anabledau amrywiol, nam ar y synhwyrau a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiad yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin.

Mae angen i staff yr ysgol fod â lefel uchel o ymwybyddiaeth gyda phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a hyrwyddo diwylliant lle gall plant wneud eu dymuniadau a'u teimladau yn hysbys o ran eu gofal a'u triniaeth.

Sicrhau bod yr holl blant ag ADY yn gwybod sut i godi pryderon os ydynt yn poeni neu'n flin ynghylch rhywbeth a rhoi mynediad iddynt i amrywiaeth o oedolion y gallant gyfathrebu â nhw. Dylai plant ag anawsterau cyfathrebu gael modd o gael eu clywed bob amser.

Dylid caniatáu i bob plentyn gydag ADY, sy'n cael eu cyfweld fel rhan o unrhyw ymchwiliad diogelu, i fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â phwy fydd yr oedolyn priodol mewn sefyllfa cyfweliad. Rhaid ceisio cyngor gan Borth y Gwasanaeth Plant o ran cyfranogiad priodol y teulu neu staff ysgol o ran presenoldeb mewn unrhyw gyfweliad gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

11. (Cyf 16) Cefnogi Staff

Gall staff sy'n gweithio yn yr ysgol, sydd wedi ymwneud â'r plentyn sydd wedi dioddef niwed, neu sy'n ymddangos yn debygol o ddioddef niwed, deimlo fod y sefyllfa yn un sy'n peri gofid ac/neu yn anodd yn broffesiynol ac yn foesol. Bydd staff yn cael eu cefnogi - drwy ddarparu cyfle ac amser i drafod eu pryderon naill ai gyda'u goruchwyliwr, a all o bosibl ystyried cefnogaeth bellach gan yr ysgol, neu gan Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol, sydd â mynediad i a gwybodaeth ynglŷn â chefnogaeth sydd ar gael yn yr ysgol a thrwy eu hawdurdod lleol.

Mae Adran 5 o'r polisi hwn yn darparu enghreifftiau eraill o'r gefnogaeth y bydd yr ysgol yn ei darparu.

Cyfrifoldeb Pennaeth yr ysgol yw goruchwyliaeth / cefnogaeth broffesiynol yr Arweinydd Diogelu Dynodedig. Mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi dogfen ganllawiau Fframwaith Cefnogi ar waith sydd wedi ei hysgrifennu ar y cyd gyda'r penaethiaid i gynorthwyo ysgolion yn y maes allweddol hwn o gefnogaeth i staff sy'n ymwneud â diogelu ac mae ar gael ar Sharepoint Hwb

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

12. (Cyf 17) Honiadau a wneir yn erbyn Aelodau o Staff

Bydd yr ysgol yn dilyn Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

Bydd y Pennaeth a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau mewn perthynas â gweithdrefnau sy'n ofynnol pan wneir honiad yn erbyn gweithiwr proffesiynol ac yn benodol:

- Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill
- Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr rhif: 002/2020 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol
- Cod Ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Mae'r canllawiau uchod i'w gweld yma: www.llyw.cymru . Fe fydd gan y Pennaeth a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig eu copïau unigol eu hunain o Gylchlythyrau: 009/2014 a Chylchlythyr: 002/2020 a restrir uchod a byddant wedi darllen a deall y canllawiau'n llawn.

Mae'n rhaid i bob aelod o staff sicrhau eu bod yn rhoi gwybod yn syth i'r Pennaeth neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig am unrhyw honiad yn ymwneud ag oedolyn sy'n gweithio gyda phlant; bydd hyn yn cynnwys holl staff yr ysgol, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr, gweithwyr achlysurol neu gontractwyr a'r staff hynny nad ydynt ar safle'r ysgol ond sy'n dod i gysylltiad â phlant h.y. y rhai sy'n cludo plant i/o'r ysgol, hebryngwyr croesfannau ysgol ac ati.

Fe ddylid dwyn honiadau yn erbyn aelodau o staff i sylw'r Pennaeth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr a Phennaeth y Gwasanaethau Addysg) ar unwaith. Os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, yna dylid hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr, a ddylai yn ei dro hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Addysg ar unwaith. Er hwylustod bydd yr unigolyn hwn yn cael ei adnabod fel y 'Rheolwr Achos'. (Os adroddir am yr honiadau yn erbyn aelod o staff i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig, yna mae'n rhaid hysbysu'r Pennaeth ar unwaith.)

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Y Pennaeth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr yn achos y Pennaeth) fel y Rheolwr Achos, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am unrhyw honiad diogelu.

Yn gyntaf, dylai'r Rheolwr Achos drafod yr honiad ar unwaith gyda Swyddog Diogelu Addysg yr Awdurdod Lleol o fewn yr adran Addysg a fydd hefyd yn cefnogi'r ysgol gyda sut i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru a restrir uchod. Dylid hysbysu Swyddog Diogelu Addysg yr Awdurdod Lleol am **bob** honiad sy'n dod i sylw ysgol ac sy'n ymddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod, fel y gallant ymgynghori â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol o fewn y Gwasanaethau Plant a'r heddlu, fel y bo'n briodol.

Cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am ymdrin â materion disgyblu staff yn yr holl ysgolion a gynhelir ac fe ddylent gyfeirio at Ganllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr rhif: 009/2020 - Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol.

<https://llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-diswyddo-staff-ysgol>

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/diogelu-plant-mewn-addysg-ymdrin-a-honiadau-o-gam-drin-yn-erbyn-athrawon-a-staff-eraill.pdf>

13. (Cyf 18) Recriwtio Mwy Diogel

Fe fydd yr ysgol yn cadw at Gylchlythyr Llywodraeth Cymru: 283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5. Bydd gofyn i bob aelod o staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr fod â thystysgrif datgeliad gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Bydd yr ysgol yn cynnal cofnod o ddyddiadau datgeliad GDG yr holl staff ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hadnewyddu mewn pryd.

Cedwir cofnod ysgrifenedig o'r holl staff cyflenwi dyddiol, gwirfoddolwyr a chontractwyr gan restru'n glir lle mae datgeliad y GDG ar gael neu bydd asesiad risg yn cael ei gynnal yn lle datgeliad GDG.

Y Pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod pob unigolyn sy'n mynychu safle'r ysgol yn cael asesiad risg priodol mewn amgylchiadau lle nad oes datgeliadau GDG ar gael.

Bydd yr ysgol hefyd yn cadw at arferion recriwtio mwy diogel CSDd o ran derbyn a gwirio geiradaon pobl cyn eu penodi, y manylion am yr unigolyn, pecynnau gwybodaeth i ymgeiswyr, swydd-ddisgrifiadau, cyfweiliadau a hyfforddiant sefydlu.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Bydd yr ysgol yn cadw at Weithdrefnau Recriwtio'r Awdurdod Lleol a Chanllawiau Recriwtio Mwy Diogel Llywodraeth Cymru.

14. (Cyf 18) Diogelwch Safle'r Ysgol

Mae'r ysgol yn lle diogel i ddisgyblion ddysgu a datblygu sgiliau dysgu a chymdeithasol. Mae diogelwch corfforol y disgyblion pan fyddant ar safle'r ysgol yn hollbwysig. Caiff mynediad i safle'r ysgol ei fonitro a'i adolygu'n llym yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol ar lechyd a Diogelwch safleoedd ysgolion. Mae'n rhaid i hyn gynnwys archwiliad rheolaidd wedi'i gynllunio o safle'r ysgol.

Mae'n rhaid i archwiliad diogelu o safle'r ysgol gael ei gynnal yn flynyddol a'i drafod a'i gofnodi'n ffurfiol drwy gorff llywodraethu'r ysgol. Mae Polisi lechyd a Diogelwch yr ysgol ar gael i'w adolygu ar gais gan y Pennaeth.

Mae'n ofynnol i bob ymwelydd dyddiol a defnyddwyr safle'r ysgol lofnodi pan fyddant yn mynd i mewn i eiddo'r ysgol ac yn mynd allan. Byddant yn rhestru'n glir y cwmni maent yn gweithio iddo a'r rheswm dros ymweld neu ddefnyddio safle'r ysgol.

Caiff pob defnyddiwr o safle'r ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ei wirio gan y pennaeth i sicrhau eu bod yn addas i fod ar y safle. Rhaid i'r pennaeth wneud hyn naill ai trwy edrych ar ddatgeliad GDG y defnyddiwr neu drwy wirio gyda'r asiantaeth i weld neu wirio bod GDG cyfredol yn bodoli ar gyfer y staff.

Os nad yw'r un o'r opsiynau uchod ar gael rhaid cwblhau asesiad risg. Mae'n rhaid i'r asesiad risg hwn restru'n glir y mesurau rheoli a ddefnyddir gan yr ysgol i ddiogelu'r plant. Bydd hyn yn cynnwys yr holl weithgareddau y tu allan i oriau'r ysgol gan gynnwys gyda'r nos, penwythnosau a chyfnodau gwyliau fel y cytunir gan y Pennaeth. Gellir defnyddio rhestr o gontractwyr dyddiol fel sydd wedi ei hatodi. **Atodiad G**

15. (Cyf 19) Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC)

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC) yn gorff statudol sydd yn cydlynu, monitro a herio ei asiantaethau partner i ddiogelu plant yng Ngogledd Cymru. Amcanion BDGC yw DIOGELU plant yn

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

ei ardal sydd yn profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu unrhyw niwed arall ac ATAL plant sydd yn profi neu mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu unrhyw niwed arall.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bartner statudol i'r Bwrdd hwn. Cyfeirir at aelodau'r Bwrdd fel partneriaid perthnasol o dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o waith y Bwrdd Diogelu. Dylai pob ysgol gael gwybodaeth wedi'i diweddarau trwy danysgrifio i wefan BDGC.

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/gweithdrefnau-diogelu-cymru-yn-dod-yn-fuan/>

Anogir ysgolion i fynychu digwyddiadau a hyfforddiant gan BDGC. Hefyd caiff Hyfforddiant Ar-lein ei gynnig gan BDGC.

Efallai bydd angen i ysgolion fod yn rhan o'r broses Adolygiad Ymarfer Plant. Bydd ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant a'r Adran Addysg mewn amgylchiadau o'r fath i sicrhau yr ymatebir i geisiadau am wybodaeth a dogfennaeth yn amserol. Efallai bydd angen i ysgolion fynychu Digwyddiadau Dysgu yn ystod y broses adolygu. Bydd staff yr ysgol yn cael cymorth ac arweiniad gan yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant er mwyn cymryd rhan yn llawn yn y digwyddiadau hyn.

16. (Cyf 19) Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y budd mwyaf posibl o'u haddysg waeth beth fo'u cefndir ethnig, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cred grefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir ei gyfiawnhau.

Er mwyn gwneud penderfyniadau proffesiynol sensitif a gwybodus am anghenion plentyn, a gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plentyn, mae'n bwysig fod staff yr ysgol yn sensitif i wahanol batrymau teuluol, ffyrdd o fyw ac i batrymau magu plant sy'n amrywio ar draws gwahanol grwpiau hiliol, ethnig a diwylliannol.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

17. (Cyf 20) Cyfrinachedd a Rhannu Gwybodaeth

Mae'r ysgol yn cydnabod bod yr holl faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu'n gyfrinachol, ond mae yna gydbwysedd rhwng amddiffyn plant a'r hawl i breifatrwydd, fel yr amlinellir isod.

Dim ond i aelodau eraill o staff sydd angen gwybod y bydd y Pennaeth a/neu'r Swyddog Diogelu Plant yn datgelu unrhyw wybodaeth am ddisgybl. Mae cyfrifoldeb proffesiynol dros rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

Bydd staff yn deall na allant addo i blentyn y byddant yn cadw cyfrinachau, a allai gyfaddawdu diogelwch y plentyn neu eu lles.

Er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gadarn, mae angen deall egwyddorion cyffredinol rhannu gwybodaeth sy'n adnabyddadwy i blentyn a/neu bobl ifanc neu eu rhieni/gofalwyr. Rhaid i ddiogelwch a lles plentyn neu berson ifanc fod yr ystyriaeth gyntaf wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth amdanynt.

Mae'n rhaid cael sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a phwrpas cyfreithlon dros wneud hynny. Wrth ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol, bydd angen i ni fod yn fodlon bod yna naill ai:

- ymrwymiad statudol dros ddatgelu
- caniatâd wedi'i fynegi neu ei awgrymu gan yr unigolion dan sylw neu
- budd cyhoeddus tra phwysig i ddatgelu'r wybodaeth

Nid yw'r Ddeddf Diogelu Data yn rhwystr i rannu gwybodaeth, ond mae'n darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol ynghylch pobl sy'n fyw yn cael ei rhannu'n briodol.

Hyd nes y bydd datblygu protocolau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, bydd pob aelod o staff yn ceisio cyngor gan y Swyddog Diogelu Plant a/neu'r Pennaeth mewn perthynas â rhannu unrhyw wybodaeth.

Fe fydd y Pennaeth a'r Swyddog Diogelu Plant yn gwbl ymwybodol o'r canllawiau yn ymwneud â'r Ddeddf Diogelu Data a'r canllawiau yn ymwneud â rhannu gwybodaeth:

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) <http://www.waspi.org/>

Er hwylustod gellir gweld y Saith Rheol Aur ar gyfer Rhannu Gwybodaeth yn **Atodiad H**.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/417696/Archive-d-information-sharing_guidance_for_practitioners_and_managers.pdf

SYLWER: caiff y 7 rheol aur eu cymryd o wefan gov.uk ac maent yn cynnwys y wybodaeth sydd yng ngwybodaeth WASPI Llywodraeth Cymru.

18. (Cyf 21) Polisiâu Perthnasol (Rhaid dilyn pob polisi ochr yn ochr â'r polisi hwn)

Un o delerau'r polisi hwn yw bod y dogfennau hyn yn cael eu darllen ac y cydymffurfir â hwy.

Mae hefyd yn un o delerau'r polisi hwn bod asesiadau risg yn cael eu dogfennu a'u storio'n ddiogel mewn perthynas ag unrhyw weithgareddau neu unigolion fel sy'n ofynnol yn y polisiâu canlynol.

Lle y bo'n briodol, darparwch ddolen i'r wybodaeth berthnasol.

18.1 (Cyf 21) Polisiâu'r Ysgol

DS. Bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn dyfynnu teitl llawn y polisiâu ysgol ar gyfer yr adran hon. Mae cyngor a chanllawiau ar bolisiâu enghreifftiol ar gael yn y lle cyntaf trwy'r Swyddog Diogelu Addysg.

- Ymddygiad a Gwrth Fwlio
- Fframwaith Rhwng Cyfoedion mae ysgolion wedi'i fabwysiadu
- Caniatâd ar gyfer Creu Delweddau Digidol neu ar gyfer y Cyfryngau
- Tynnu Lluniau a Ffilmio
- Cyswllt â Disgyblion
- Dyletswydd Atal

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Goruchwylio gweithgaredd gyda Phlant nad yw ar safle'r ysgol
- Iechyd a Diogelwch
- Cymorth Cyntaf
- Diogelwch Safle
- Presenoldeb
- Sefydlu gwirfoddolwyr
- Dyluniad y cwricwlwm
- Diogelwch ar y rhyngwyd
- Cyfleoedd Cyfartal
- Rhannu pryderon
- Cynllun Cydraddoldeb Ysgol

18.2 (Cyf 22) Awdurdod Lleol www.sirddinbych.gov.uk

Mae tudalennau gwe CSDd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd felly nid yw'r cysylltiadau uniongyrchol ar gael i nifer o'r polisiau isod. Cysylltwch â'r gwasanaeth perthnasol am gyngor ac arweiniad yn y lle cyntaf.

- Ymyriad Corfforol / Delio Positif (Statudol)
Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad yn uniongyrchol
- Polisi Presenoldeb Cyngor Sir Ddinbych
<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/education/attendance-policy-en.pdf>
- Gweithdrefn Recriwtio a Dethol CSDd (sy'n cynnwys arferion recriwtio mwy diogel) sy'n cwmpasu dechreuwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr newydd.

Cysylltwch â Cyswllt AD

- E-ddiogelwch/Defnyddio'r Rhyngwyd yn Ddiogel CSDd

Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Addysg

- Polisi Rhannu Pryderon CSDd
<https://www.denbighshire.gov.uk/en/your-council/strategies-plans-and-policies/whistleblowing-policy-en.pdf>
- Cynllun Cydraddoldeb CSDd
<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/education/equality-and-schools/Denbighshire-County-Council-Strategic-Equality-Plan-Guidance-for-Schools.pdf>
- Cyfleoedd Cyfartal
<https://www.denbighshire.gov.uk/en/your-council/access-to-information/equality-diversity-and-human-rights.aspx>

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

18.3 (Cyf 22) Cenedlaethol <http://llyw.cymru/>

19. (Cyf 24) Cydymffurfio â'r Polisi hwn

Mae'n rhaid i bob aelod o staff ddarllen a deall y polisi hwn, gan gynnwys yr atodiadau a pholisïau cysylltiedig sy'n cyfateb i'w rolau a chyfrifoldebau unigol. Yna mae'n rhaid i'r holl staff brintio'u henw a rhoi eu llofnod yn y tabl isod.

Mae'n rhaid i bob aelod newydd o staff gydymffurfio â'r un drefn cyn gynted â phosibl.

Enw	Swydd	Llofnod	Dyddiad

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae Diogelu ac Amddiffyn yn gyfrifoldeb i bawb

(Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019)

Mae diogelu'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed ac addysgu'r rheiny o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Diffinnir diogelu a hybu lles plant sy'n mynychu ysgol at ddibenion y polisi hwn fel a ganlyn:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed;
- atal amhariad i iechyd neu ddatblygiad plant;
- Sicrhau bod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sy'n gyson â darpariaeth gofal diogel ac effeithiol; a
- Cymryd camau gweithredu i alluogi pob plentyn i gyflawni'r canlyniadau gorau

Adran 175 Deddf Addysg 2022 ac Adran 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Diffiniad o Amddiffyn Plant

Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgaredd, sy'n cael ei wneud i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod

21. (Cyf 26) Atodiad B – Categoriâu o Berygl o Niwed

Categoriâu

Bydd y categori, neu gyfuniad o gategoriâu, a ddefnyddir wrth gofrestru yn dangos i'r rhai sy'n defnyddio'r gofrestr beth yw'r prif bryderon ar adeg cofrestru.

(Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019)

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Caiff plentyn ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fydd rhywun yn peri niwed, neu'n methu â gweithredu i atal niwed iddo. Gall plentyn ddioddef camdriniaeth mewn amgylchedd teulu neu mewn amgylchedd sefydliadol neu gymunedol; gan bobl y maen nhw'n eu hadnabod, neu yn fwy anaml, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc **hyd at 18 oed** ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bydd angen amddiffyniad arnynt drwy gynllun amddiffyn plant rhyngasiantaethol.

Cam-drin Corfforol

Gall gynnwys taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal rhywun yn ormodol neu gosbau amhriodol.

Cam-drin Emosiynol a Seicolegol

Bygythiadau o niwed neu adael plentyn, rheolaeth orfodol, codi cywilydd arnynt, cam-drin geiriol neu hiliol, arwahanrwydd neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, bod yn dyst i gam-drin eraill.

Cam-drin Rhywiol

Gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio. Gall hyn gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol, gweithgarwch di-gyffwrdd, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, deunydd pornograffig neu wyllo gweithgarwch rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol.

Ariannol

Bydd y categori hwn yn llai amlwg i blentyn, ond gallai dangosyddion gynnwys:

Peidio â diwallu eu hanghenion o ran gofal a chefnogaeth a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol neu:

Gwynion bod eiddo personol yn mynd ar goll.

Esgeulustod

Methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol a/neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at amhariad i iechyd neu ddatblygiad.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

22. (Cyf 27) Atodiad C - Dangosyddion Niwed

Dangosyddion Niwed

1 Cam-drin Corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch mewn plentyn neu'n cymell hynny'n fwriadol.

Dangosyddion yn y Plentyn

Cleisio - Yn aml mae'n bosibl gwahaniaethu rhwng cleisiau damweiniol a chleisiau a achoswyd. Rhaid ystyried y canlynol fel cleisiau annamweiniol oni bai bod tystiolaeth neu bod esboniad digonol yn cael ei roi:

- Cleisio yn y geg neu o'i gwmpas
- Dwy lygad wedi cleisio ar yr un pryd, heb glais ar y talcen (anamyl bydd hyn yn ddamweiniol, er y gall un llygad wedi cleisio fod yn ddamweiniol neu wedi'i achosi gan gamdriniaeth)
- Cleisiau ailadroddus neu lawer o gleisiau ar y pen neu ar lefydd a fyddai'n annhebygol o gael eu hanafu'n ddamweiniol, er enghraifft, y cefn, y geg, boch, clust, y stumog, y frest, o dan y fraich, y gwddf, organau rhywiol ac ardaloedd rheffrol
- Amrywiad mewn lliw, o bosib yn dangos anafiadau a achoswyd ar wahanol adegau
- Amlinelliad o wrthrych a ddefnyddiwyd, e.e. marciau belt, printiau llaw neu frwsh gwallt
- Cleisiau llinellol ar unrhyw ardal, yn enwedig ar y pen-ôl, cefn neu'r wyneb
- Cleisiau neu rwygiadau o amgylch, neu y tu ôl, i labed y clustiau sy'n dangos anaf drwy eu tynnu neu eu troi
- Cleisio o amgylch yr wyneb
- Marciau gafael ar ran uchaf y breichiau, blaen y fraich neu goes
- Gwaedlifau Petechae (smotiau gwaed o dan y croen), sy'n gysylltiedig yn aml â slapio, mygu, crogi a gwasgu

Toriadau - Gall torri esgyrn achosi poen, chwydd ac aflwiad dros esgyrn neu gymal. Mae'n annhebygol y bydd plentyn wedi torri asgwrn heb i'r gofalwyr fod yn ymwybodol o drallod y plentyn.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Os nad yw'r plentyn yn defnyddio braich neu goes, os oes ganddo boen wrth symud a/neu fod coes neu fraich wedi chwyddo, efallai ei fod wedi torri asgwrn. Mae sail i bryderu os:

- Yw'r hanes a ddarperir yn amwys, ddim yn bodoli neu'n anghyson
- Oes hen doriadau asgwrn cysylltiedig
- Ceisir sylw meddygol ar ôl cyfnod o oedi pan fydd y toriad wedi achosi symptomau fel chwydd, poen neu golli symudiad

Achosir toriadau i asennau o ganlyniad i drawma mawr fel mewn damwain ffordd, anaf ysgwyd difrifol neu anaf uniongyrchol megis cic yn unig.

Mae toriadau i'r benglog yn anghyffredin mewn cwympiadau cyffredin, h.y. o dair troedfedd neu lai. Mae tyst i'r anaf fel arfer, bydd y plentyn yn crio, ac os bydd wedi torri asgwrn, mae'n debygol y bydd chwydd yn datblygu ar y benglog dros 2 i 3 awr. Dylid cymryd pob toriad i'r benglog o ddifrif.

Anafiadau i'r geg - Mae rhwygiadau i'r frenulum (y meinwe sy'n atodi'r wefus uchaf i'r gwm) yn aml yn arwydd o orfodi bwyd ar fabi neu blentyn ag anabled. Yn aml bydd cleisiau marciau bysedd ar y bochau ac o amgylch y geg. Yn anaml, mae'n bosibl fod yna grafiadau ar y daflod hefyd.

Gwenwyno - Mae achosion o lyncu tabledi neu wenwyn domestig mewn plant o dan 5 oed fel arfer o ganlyniad i esgeulustod rhiant neu ofalwr, ond gall fod yn hunan-niwed, hyd yn oed mewn plant ifanc.

Salwch wedi'i Ffugio neu wedi ei Achosi - Gall gweithwyr proffesiynol fod yn bryderus am y posibilrwydd o blentyn yn dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i salwch yn cael ei ffugio neu yn cael ei achosi gan ei ofalwr. Pryderon posibl yw:

- Anghysondeb rhwng cyflyrau meddygol a adroddwyd amdanynt ac a arsylwir, megis ffitiau
- Presenoldeb mewn amryw o ysbytai, mewn gwahanol ardaloedd
- Datblygu anhwylderau bwydo/bwyta, o ganlyniad i ryngweithiadau bwydo annymunol
- Y plentyn yn datblygu agweddau annormal tuag at ei iechyd ei hun
- Methiant anorganig i ffynnu – pan nad yw plentyn yn magu pwysau nac yn tyfu ac nad oes achos meddygol sylfaenol
- Oedi o ran datblygiad lleferydd, iaith neu symudedd
- Ddim yn hoffi cyswllt corfforol agos
- Anhwylderau ymlyniad
- Hunan-barch isel
- Perthnasoedd o ansawdd gwael gyda chyfoedion neu ddiffyg perthnasoedd am fod rhyngweithio cymdeithasol wedi'i gyfyngu

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Presenoldeb gwael yn yr ysgol a thangyflawni

Marciau Brathu - Gall marciau brathu adael argraffiadau clir o'r dannedd yn fuan ar ôl i'r anaf ddigwydd. Yna bydd y siâp yn dod yn glais mwy diffiwsiedig mewn siâp modrwy, hirgrwn neu hanner cylch. Mae'r rhai dros 3cm mewn diamedr yn fwy tebygol o fod wedi'u hachosi gan oedolyn neu blentyn hŷn. Dylid ceisio barn feddygol/deintyddol, yn ddelfrydol o fewn y 24 awr gyntaf, os oes yna unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad y brathiad.

Llosgiadau a Sgaldiadau - Gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng llosgiadau a sgaldiadau damweiniol ac annamweiniol. Sgaldiadau yw'r anaf llosgi bwriadol mwyaf cyffredin a gofnodir. Gall unrhyw losg ag amlinelliad clir fod yn amheus, e.e. llosgiadau cylchol o sigarêts, llosgiadau llinellol o rodenni metel poeth neu elfennau tân trydanol, llosgiadau o'r un dyfnder dros ardal fawr o'r corff, sgaldiadau sydd â llinell sy'n dangos trochi neu hylif wedi'i dywallt. Gall hen greithiau fod yn arwydd o losgiadau/sgaldiadau blaenorol na chawsant eu trin yn briodol neu na chafwyd eglurhad digonol ohonynt. Mae sgaldiadau i ben-ôl plentyn, yn enwedig yn absenoldeb llosgiadau i'r traed, yn arwydd o drochi i mewn i hylif neu fath poeth.

Mae'r pwyntiau canlynol hefyd yn werth eu cofio:

- Mae oedolyn cyfrifol yn gwirio tymheredd y bath cyn i'r plentyn fynd i mewn iddo.
- Mae plentyn yn annhebygol o eistedd i lawr yn wirfoddol mewn bath poeth, ac ni all sgaldio ei ben-ôl yn ddamweiniol heb sgaldio ei draed hefyd.
- Bydd plentyn a fydd yn mynd i ddŵr sy'n rhy boeth o'i wirfodd yn gwneud ei orau i ddod allan, a bydd marciau sblasio.

Creithiau - Gall nifer fawr o greithiau neu greithiau o wahanol feintiau neu oedrannau, neu ar wahanol rannau o'r corff, neu mewn siapiau anarferol, awgrymu camdriniaeth.

Cyflwyniad emosiynol/yaddediadol

- Gwrthod trafod anafiadau
- Derbyn cosb sy'n ymddangos yn ormodol
- Ofn y cysylltir â'r rhieni ac ofn mynd yn ôl adref
- Tynnu'n ôl o gyswllt corfforol
- Breichiau a choesau'n cael eu gorchuddio mewn tywydd poeth
- Ofn cymorth meddygol
- Ymddygiad ymosodol tuag at eraill
- Yn absennol o'r ysgol yn aml
- Esboniad sydd yn anghyson ag anaf
- Nifer o esboniadau gwahanol yn cael eu rhoi ar gyfer anaf

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Dangosyddion yn y Rhiant

- Gallant fod ag anafiadau eu hunain sy'n awgrymu trais domestig
- Ddim yn ceisio cymorth meddygol/oedi anesboniadwy o ran ceisio triniaeth
- Amharod i roi gwybodaeth neu sôn am anafiadau blaenorol
- Absennol heb reswm da pan fydd angen triniaeth ar eu plentyn
- Dim diddordeb neu ddim yn poeni am ddamwain neu anaf
- Yn ymosodol tuag at blentyn neu eraill
- Ymdrechion i roi meddyginiaeth heb awdurdod
- Ceisio tynnu'r plentyn i'w salwch eu hunain
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol
- Gall rhiant/gofalwr gymryd rhan yn ormodol mewn profion meddygol, cymryd tymheredd a mesur hylifau corfforol
- Yn ymwneud yn ddwys â'u plant, byth yn cymryd seibiant, nac yn caniatáu i unrhyw un arall ymgymryd â gofal eu plentyn
- Gallant ymddangos yn anarferol o bryderus am ganlyniadau ymchwiliadau a allai ddangos salwch corfforol yn y plentyn
- Fe all anawsterau rhianta ehangach fod yn gysylltiedig (neu mae'n bosibl nad yw'n gysylltiedig) â'r math hwn o gamdriniaeth
- Mae gan y rhiant/gofalwr euogfarnau am droseddau treisgar

Dangosyddion yn y teulu/amgylchedd

- Ymylol neu wedi'u hynysu gan y gymuned
- Hanes o iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosb gorfforol

2 Cam-drin Emosiynol

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn barhaus yn emosiynol nes achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plant eu bod yn ddiwerth a bod neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn unig i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion unigolyn arall.

Gall gynnwys peidio â rhoi cyfleoedd i blentyn i fynegi eu safbwyntiau, eu distewi'n fwriadol neu 'wneud hwyl' o'r hyn maent yn ei ddweud neu sut maent yn cyfathrebu. Gall gynnwys rhoi disgwyliadau sy'n amhriodol ar blant o safbwynt oed neu ddatblygiad. Gall y rhain gynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygiadol y plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar archwiliad a dysgu plentyn, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall gynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiber-fwlio), achosi i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu gamfanteisio ar blant neu eu llygru. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn ymwneud â phob math o gam-drin plentyn, er fe allai ddigwydd ar ei ben ei hun.

Dangosyddion yn y Plentyn

- Oedi o ran datblygiad
- Ymlyniad anarferol rhwng plentyn a rhiant/gofalwr, e.e. gorbryderus, annetholus neu dim ymlyniad
- Ymddygiad ymosodol tuag at eraill
- Plentyn wedi'i wneud yn fwch dihangol o fewn y teulu
- Gwylidwusrwydd dwys, yn enwedig mewn plant dan oed ysgol
- Hunan-barch isel a diffyg hyder
- Yn encilgar neu'n cael ei weld fel 'un unig' – yn cael anhawster ymwneud ag eraill
- Yn gorymateb i gamgymeriadau
- Ofni sefyllfaoedd newydd
- Ymatebion emosiynol amhriodol i sefyllfaoedd poenus
- Ymddygiad niwrotig (e.e. siglo, troelli gwallt, sugno bawd)
- Hunan-niweidio
- Ofn y cysylltir â rhieni
- Eithafion goddefedd neu ymddygiad ymosodol
- Camddefnyddio cyffuriau/sylweddau
- Rhedeg i ffwrdd yn barhaus
- Dwyn cymhellol
- Hunan-barch isel
- Natur difaterwch – agwedd 'does dim ots gen i'
- Ynysiad cymdeithasol - nid yw'n ymuno ac nid oes ganddo lawer o ffrindiau
- Iselder, encilio

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Problemau ymddygiad, e.e. ymddygiad ymosodol, ceisio sylw, gorfywiogrwydd, rhychwant sylw gwael
- Hunan-barch isel, diffyg hyder, ofn, gofid, pryder
- Perthnasoedd gwael â chyfoedion, gan gynnwys ymddygiad encilgar neu ynysig

Dangosyddion yn y Plentyn

- Gall cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl oedolion a chamddefnyddio sylweddau gan rieni fod yn nodweddion mewn teuluoedd lle mae plant yn agored i gamdriniaeth.
- Ymlyniad annormal i blentyn, e.e. rhy bryderus neu ddiffyg diddordeb yn y plentyn
- Yn gwneud un plentyn yn fwch dihangol o fewn y teulu
- Yn gosod disgwyliadau amhriodol ar y plentyn, e.e. yn atal archwiliad datblygiadol neu ddysgu'r plentyn, neu ryngweithio cymdeithasol arferol drwy oramddiffyn.
- Fe all anawsterau rhianta ehangach fod yn gysylltiedig (neu mae'n bosibl nad yw'n gysylltiedig) â'r math hwn o gamdriniaeth

Dangosyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Diffyg cefnogaeth gan deulu neu rwydwaith cymdeithasol
- Wedi eu gwrthio i'r cyrion neu wedi eu hynysu gan y gymuned.
- Hanes o iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref.
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd y teulu.
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, troi pryder yn symptomau corfforol, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosb gorfforol

3 Esgeulustod

Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol y plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau gan y fam. Unwaith y bydd plentyn yn cael ei eni, gall esgeulustod gynnwys rhiant neu ofalwr yn methu â:

- Darparu bwyd a dillad digonol, lloches (gan gynnwys gwahardd o'r cartref neu droi cefn);
- Amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol ac emosiynol neu berygl;
- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys y defnydd o ofalwyr anghymwys); neu
- Sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Gall hefyd gynnwys esgeulustod, neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol y plentyn.

Dangosyddion yn y Plentyn - Ymddangosiad Corfforol

- Methu â ffynnu neu, mewn plant hŷn, taldra byr
- Dan bwysau
- Chwant bwyd yn aml
- Cyflwr budur, blêr
- Wedi gwisgo'n annigonol, dillad mewn cyflwr gwael
- Croen coch/piws brith, yn enwedig ar y dwylo a'r traed - gwelir hyn yn y gaeaf oherwydd oerfel
- Coesau a breichiau wedi chwyddo gyda briwiau sy'n araf yn gwella, fel arfer yn gysylltiedig ag anaf oer
- Chwant bwyd barus annormal
- Gwallt sych, tenau
- Heintiau neu gyflyrau croen rheolaidd/heb eu trin, e.e. ecsema neu lau pen parhaus, clefyd crafu, dolur rhydd
- Cyflyrau iechyd neu feddygol heb eu rheoli/heb eu trin, gan gynnwys iechyd deintyddol gwael
- Damweiniau neu anafiadau aml

Dangosyddion yn y Plentyn - Datblygiad

- Oedi cyffredinol, yn enwedig o ran lleferydd ac iaith
- Sgiliau cymdeithasol annigonol a chymdeithasu gwael

Dangosyddion yn y Plentyn – Ymddangosiad Emosiynol / Ymddygiadol

- Anhwylderau ymlyniad
- Absenoldeb ymatebolrwydd cymdeithasol arferol
- Ymddygiad diwahân mewn perthnasoedd ag oedolion
- Anghenus yn emosiynol
- Dwyn cymhellol
- Blinder cyson
- Yn absennol o'r ysgol neu'n hwyr yn aml
- Diffyg hunan werth
- Tueddiadau dinistriol
- Yn ffynnu i ffwrdd o amgylchedd y cartref
- Ymddygiad ymosodol a byrbwyll

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Perthnasoedd anesmwyth â chyfoedion
- Ymddygiad hunan-niweidiol

Dangosyddion yn y Rhiant

- Ymddangosiad budur, blêr
- Wedi gwisgo'n annigonol
- Sgiliau cymdeithasol annigonol a chymdeithasu gwael
- Ymlyniad annormal i'r plentyn, e.e. pryderus
- Hunan-barch isel a diffyg hyder
- Methu diwallu'r anghenion hanfodol sylfaenol, e.e. bwyd digonol, dillad, cynhesrwydd, hylendid
- Methu â diwallu anghenion iechyd a meddygol y plentyn, e.e. iechyd deintyddol gwael, methu â mynychu neu gadw apwyntiadau gydag ymwelydd iechyd, meddyg teulu neu ysbyty, diffyg cofrestru gyda meddyg teulu, methu â cheisio neu gydymffurfio â thriniaeth feddygol briodol, methu â mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau gan riant yn ystod beichiogrwydd
- Plentyn wedi'i adael gydag oedolion sydd wedi meddwi neu sy'n dreisgar
- Plentyn yn cael ei adael neu ei adael ar ei ben ei hun am gyfnodau gormodol
- Fe all anawsterau rhianta ehangach fod yn gysylltiedig (neu mae'n bosibl nad yw'n gysylltiedig) â'r math hwn o gamdriniaeth

Dangosyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Hanes o esgeulustod yn y teulu
- Y teulu wedi eu gwthio i'r cyrion neu wedi eu hynysu gan y gymuned.
- Y teulu â hanes o broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref.
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd. Y teulu â hanes o gam-drin yn ystod plentynod, hunan niweidio, troi pryder yn symptomau corfforol, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosb gorfforol.
- Amgylchedd peryglus yn y cartref, gan gynnwys methu â defnyddio offer diogelwch yn y cartref; perygl o ganlyniad i anifeiliaid.
- Amgylchedd y cartref mewn cyflwr gwael, e.e. cyfleusterau budr, diffyg trefniadau cysgu priodol, awyru annigonol (gan gynnwys ysmegu goddefol) a diffyg gwres digonol.
- Diffyg cyfleoedd i blant chwarae a dysgu.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

4 Cam-drin Rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, nad yw o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio.

Gall gweithgarwch gynnwys cyffwrdd corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd anhreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad.

Gall hefyd gynnwys gweithgarwch heb gyffwrdd, megis gwneud i blant edrych ar, neu gynhyrchu delweddau rhywiol, gwyllo gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn modd rhywiol amhriodol, neu hudo plentyn i'w baratoi i gael ei gam-drin (gan gynnwys drwy'r rhyngwyd).

Nid oedolion gwryw yn unig sydd yn cyflawni camdriniaeth rywiol. Gall merched hefyd gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol, yn ogystal â phlant eraill.

Dangosyddion yn y Plentyn - Ymddangosiad Corfforol

- Heintiau wrinol, gwaedu neu ddolur yn ardaloedd yr organau cenhedlu neu'r anws
- Poen rheolaidd wrth basio wrin neu garthion
- Gwaed ar ddillad isaf
- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Dolur yn y fagina neu waedu
- Beichiogrwydd mewn merch iau lle nad yw'r tad wedi'i ddatgelu a/neu lle mae cyfrinachedd neu amwysedd ynghylch pwy yw'r tad
- Symptomau corfforol megis anafiadau i ardal yr organau cenhedlu neu'r anws, cleisio ar y pen-ôl, yr abdomen a'r cluniau, clefyd a drosglwyddir yn rhywiol, presenoldeb semen ar y fagina, anws, organau cenhedlu allanol neu ddillad

Dangosyddion yn y Plentyn – Ymddangosiad Emosiynol / Ymddygiadol

- Yn gwneud datgeliad.
- Dangos gwybodaeth neu ymddygiad rhywiol sy'n amhriodol i'w oedran/cam datblygu, neu sy'n anarferol o ddi-gêl

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Newidiadau o ran ymddygiad na ellir eu hegluro, fel bod yn ymosodol neu wedi encilio
- Hunan-niweidio, e.e. anhwylderau bwyta, hunan-anffurfio a cheisio cyflawni hunanladdiad
- Hunanddelwedd wael, hunan-niweidio, hunan-gasineb
- Amharod i ddadwisgo ar gyfer Addysg Gorfforol
- Rhedeg oddi cartref
- Sylw neu ganolbwyntio gwael (mewn byd bach eu hunain)
- Newidiadau sydyn mewn arferion gwaith ysgol, dechrau chwarae triwant
- Dod yn encilgar, wedi ei ynysu neu yn poeni'n ormodol
- Ymddygiad rhywiol dig amhriodol
- Yn destun camfanteisio'n rhywiol neu ddewis diwahân o bartneriaid rhywiol
- Gwlychu neu ymddygiadau eraill sy'n gam yn ôl, e.e. sugno bawd
- Tynnu lluniau rhywiol di-gêl
- Iselder

Dangosyddion yn y Rhiant

- Sylwadau a wneir gan y rhiant/gofalwr am y plentyn
- Diffyg ffiniau rhywiol
- Anawsterau neu wendidau rhianta ehangach
- Ymddygiad o feithrin perthynas amhriodol
- Mae'r rhiant yn droseddwr rhyw

Dangosyddion yn y Teulu/Amgylchedd

- Wedi eu gwthio i'r cyrion neu wedi eu hynysu gan y gymuned.
- Hanes o iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu drais yn y cartref.
- Hanes o farwolaeth anesboniadwy, salwch neu nifer o lawdriniaethau yn achos y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd y teulu.
- Hanes o gam-drin yn ystod plentyndod, hunan niweidio, troi pryder yn symptomau corfforol, honiadau ffug o ymosodiad corfforol neu rywiol neu ddiwylliant o gosb gorfforol.
- Aelod o'r teulu yn droseddwr rhyw.

Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn. Ar gyfer dealltwriaeth lawnach a dyfnach o ddangosyddion niwed.

23. (Cyf 36) Atodiad D - plentyn yn datgelu am blentyn arall

Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Beth i'w wneud os bydd Plentyn yn dweud wrthyhych ei fod ef/hi neu berson ifanc arall yn cael ei gam-drin?

- Dangoswch i'r plentyn eich bod wedi clywed yr hyn y mae'n ei ddweud, a'ch bod yn cymryd ei honiadau o ddifrif
 - Anogwch y plentyn i siarad, ond peidiwch ag ysgogi na gofyn cwestiynau arweiniol. Peidiwch â thorri ar draws pan fydd y plentyn yn cofio digwyddiadau o bwys. Peidiwch â gwneud i'r plentyn ailadrodd ei hanes
 - Esboniwch pa gamau y bydd rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n briodol i oedran a dealltwriaeth y plentyn
 - Peidiwch ag addo cadw'r hyn a ddywedwyd wrthyhych yn gyfrinach, gan fod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r rhai sydd angen gwybod. Nid yw rhoi gwybod am bryderon yn bradychu ymddiriedaeth
 - Ysgrifennwch yr hyn a ddywedwyd wrthyhych cyn gynted ag y gallwch chi, a dim hwyrach na 24 awr wedyn, gan ddefnyddio'r union eiriau os yn bosibl
-
- Cofnodwch a rhowch wybod am eich pryderon i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig. Peidiwch ag oedi.
 - Gofynnwch i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd a chofnodwch yr ymateb. Os nad ydych yn fodlon â'r camau a gaiff eu cymryd, ymgynghorwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol
 - Peidiwch â phoeni y gallech fod wedi gwneud camgymeriad. Byddwch bob amser yn cael eich cymryd o ddifrif gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n well eich bod wedi trafod y mater gyda rhywun sydd â'r profiad a'r cyfrifoldeb i wneud asesiad
 - Peidiwch â herio'r camdriniwr honedig (a all fod yn berson ifanc ei hun)
 - Gwnewch nodyn ysgrifenedig (Gweler y daflen ar wahân) gan gynnwys yr hyn a wnaethoch a'r ymateb a gawsoch, e.e. gan yr Arweinydd Diogelu Dynodedig, a chofnodwch unrhyw ystyriaethau, penderfyniadau a chamau gweithredu dilynol y gallwch eu cymryd
 - Adolygwch unrhyw gamau a gymerwyd – **COFNODWCH, RHOWCH WYBOD AC ADOLYGWCH**

Dylai arsylwadau ffeithiol gynnwys sylwadau'r plentyn air am air:

Sylwadau'r Plentyn

Beth oedden nhw'n ei ddweud mewn gwirionedd, dyfynnwch eu geiriau, peidiwch â rhoi seren yn hytrach na rhegfeydd neu eiriau anodd. Defnyddiwch eiriau gwirioneddol os y gallwch eu cofio neu nodwch mai geiriau tebyg a ddefnyddiwyd a'ch bod yn dweud yn fras

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Sefyllfa a Thasg

Lle oedd y digwyddiad, beth oedd y plentyn i fod yn ei wneud, a oedd yn dasg/sefyllfa arferol i'r plentyn, a oedd hyn yn rhywbeth na fyddai'r plentyn wedi'i brofi o'r blaen. A roddwyd cyfarwyddiadau clir?

Eraill yn bresennol

Faint o blant eraill a oedd yn bresennol, a oedd unrhyw rai yn gysylltiedig, beth oedd eu cyfraniad i'r digwyddiad?

Ffactorau Amgylcheddol

A oedd unrhyw beth am amgylchedd corfforol y plentyn a oedd yn effeithio ar eu hymddygiad?

Oedolion eraill yn bresennol

A oes angen i chi groesgyfeirio eich cyfrif am y digwyddiad gydag unrhyw un arall?

Sylwadau'r Oedolyn

Pa eiriau a ddywedwyd wrth y plentyn mewn gwirionedd ar ddiwedd y digwyddiad?

Cofnod Ysgrifenedig

Cofnodwch Amser, Diwrnod a Lleoliad y digwyddiad, unrhyw ddatgeliad a'r amser y gwnaed y nodiadau. Rhaid i gofnodion fod yn:

Amserol	Cyn gynted ag y bo modd ac o fewn yr un diwrnod gwaith, ac os yw'n bryder neu'n atgyfeiriad yn ymwneud ag amddiffyn plant cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.
Ffeithiol	-Peidiwch â chofnodi eich barn - dychmygwch eich bod yn gamera fideo sy'n gwyllo'r digwyddiad, ac ysgrifennwch naratif sy'n ddisgrifiadol ond nid yn rhy gymhleth.

Casgliad o ran y Digwyddiad

Sut y daeth y mater i ben, sut oedd ymddygiad y plentyn ar ddiwedd ac ar ôl y digwyddiad? Disgrifiwch eich gweithredoedd dilynol, e.e. rhoi gwybod i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a rhoi'r

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

nodiau am y digwyddiad i'r unigolyn hwn. Lle y bo'n briodol, darparwch resymeg dros eich penderfyniad.

Sylwer: Ni fydd pob eitem uchod yn berthnasol i bob cofnod, byddwch yn ymwybodol o'r penawdau a chofnodwch y wybodaeth sydd ar gael, peidiwch â theimlo rheidrwydd i 'roi tic ym mhob blwch'

24. (Cyf 38) Atodiad E – Camau i'w cymryd pan fo bwriad i siarad â phlentyn i weld p'un ai a oes yna bryder yn bodoli yn ymwneud ag amddiffyn plant

Yn amodol ar unrhyw fynegiant barn gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau diwygiedig, cynghorir yr Arweinydd Diogelu Dynodedig i gymryd y camau dilynol pan ddylid siarad â phlentyn er mwyn penderfynu os oes pryder yn bodoli yn ymwneud ag amddiffyn plant:

- Dylid cynnig y cyfle i'r plentyn gael cefnogaeth gan oedolyn o'u dewis yn y cyfarfod ("Yr Oedolyn sy'n Gwmni"), boed yn aelod o staff yr ysgol neu'n rhiant neu'n berthynas arall.
- Dylid parchu dymuniad y plentyn fel arfer os yw'n ymarferol i gydymffurfio â'u dymuniad (neu oni bai bod yr oedolyn a enwir yn rhan mewn rhyw ffordd o'r pryder sy'n cael ei ymchwilio). Os nad oes modd caniatáu i'r oedolyn hwnnw fod yn bresennol, dylid gofyn i'r plentyn enwebu oedolyn arall. Os nad yw'r plentyn yn teimlo y gall ddewis, dylai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig awgrymu rhywun priodol.
- Fel y nodwyd uchod, dylid hysbysu'r Oedolyn sy'n Gwmni o bwrrpas y cyfarfod ymlaen llaw a rhoi cyfle iddynt drafod y materion gyda'r disgybl. Dylai'r Oedolyn Cysylltiedig ei gwneud yn glir eu bod yno i gefnogi a chynghori'r disgybl, ond ni ddylent addo cadw trafodaethau rhwng y disgybl a nhw yn gyfrinachol, oherwydd mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd lle rhoddir gwybod i'r Oedolyn Cysylltiedig am faterion y mae'n rhaid rhoi gwybod i Wasanaeth Erlyn y Goron, y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu amdanynt.
- Dylid hysbysu'r Oedolyn sy'n Gwmni na ddylai ef / hi oedi cyn ymyrryd ar ran y disgybl os ystyrir bod unrhyw agwedd o'r cyfarfod yn amhriodol.
- Dylai'r Oedolyn sy'n Gwmni siarad â'r disgybl ar ôl y cyfarfod er mwyn ceisio darparu sicrwydd a chefnogaeth.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

25. (Cyf 39)Atodiad F - Camau i'w cymryd wrth gyfarfod person ifanc i ganfod a yw'r protocol Ymddygiad Rhywiol Niweidiol yn berthnasol neu a oes yna berthynas rywiol sy'n peri risg o niwed iddynt

Yn amodol ar unrhyw fynegiant barn gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau diwygiedig, cynghorir yr Arweinydd Diogelu Dynodedig i gymryd y camau canlynol wrth siarad â pherson ifanc mewn cyddestun diogelu ac amddiffyn plant:

- Mae'n rhaid ystyried a yw'r cyfarfod yn briodol o dan y canllawiau perthnasol a beth yw amcan y cyfarfod.
- Mae angen ystyried a yw'r disgybl yn debygol o fod yn agored i niwed a dylid nodi unrhyw anghenion cefnogaeth penodol.
- Dylid ystyried nifer yr oedolion sy'n bresennol yn y cyfarfod a phwy ydynt, a dylid ystyried a yw eu presenoldeb yn angenrheidiol.
- Dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod lleoliad y cyfarfod yn darparu digon o breifatrwydd a chyfrinachedd.
- Cyn i'r cyfarfod ddechrau, dylid hysbysu'r disgybl a'r Oedolyn sy'n Gwmni o bwmpas y cyfarfod a rhoi cyfle i'r disgybl siarad â'r Oedolyn sy'n Gwmni cyn i'r cyfarfod ddechrau. Dylid dweud wrth y disgybl y gallant siarad gyda'r Oedolyn sy'n Gwmni ar unrhyw adeg.
- Dylid gofyn i'r disgybl am y materion dan sylw mewn modd sensitif a'u gwahodd i gyflwyno eu safbwynt. Ni ddylent gael eu rhoi dan bwysau i wneud hynny.
- Os daw'n amlwg ar unrhyw adeg bod angen cyflwyno atgyfeiriad ffurfiol i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, mae'n rhaid i'r cyfarfod ddod i ben.
- Efallai y bydd angen rhoi cyngor i'r disgybl ynglŷn â sut i ymddwyn yn y dyfodol. Dylid rhoi cyngor o'r fath mewn modd sensitif ac anfeirniadol.
- Dylid gorffen y cyfarfod trwy roi sicrwydd i'r disgybl.

Dylai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig gadw cofnod llawn o'r cyfarfod.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

26. (Cyf 40) Atodiad G - Cofnod Contractwyr / Ymwelwyr Dyddiol

Logo'r Ysgol

Cofnod Contractwyr Dyddiol

Dylid rhoi Gwybodaeth Ddiogelu i bob Contractwr a dylid cofnodi enwau contractwyr.

Dyddiad	Amser Cyrraedd	Amser Gadael	Enw	Cwmni	Rheswm dros yr Ymweliad	Gwybodaeth AP wedi ei rhoi	Asesiad Risg	
							Rhif GDG	
							Dilys:	
							Yng nghwmni rhywun ar y safle	
							Ddim mewn ardaloedd lle bydd disgyblion ar eu pen eu hunain	
							Rhif GDG	
							Dilys:	
							Yng nghwmni rhywun ar y safle	
							Ddim mewn ardaloedd lle bydd disgyblion	

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

							ar eu pen eu hunain	
							Rhif GDG Dilys:	
							Yng nghwmni rhywun ar y safle	
							Ddim mewn ardaloedd lle bydd disgyblion ar eu pen eu hunain	

27. (Cyf 41) Atodiad H - Rhannu Gwybodaeth

Rhannu Gwybodaeth

7 Rheol Aur ar gyfer Rhannu Gwybodaeth

1. Cofiwch nad yw'r Ddeddf Diogelu Data yn rhwystr rhag rhannu gwybodaeth, ond mae'n darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol ynghylch pobl sy'n fyw yn cael ei rhannu'n briodol.
2. Byddwch yn agored ac yn onest o'r dechrau gyda'r unigolyn (a/neu ei deulu, lle bo hynny'n briodol) ynglŷn â pham, beth, sut a gyda phwy y bydd neu y gallai'r wybodaeth gael ei rhannu. Gofynnwch iddynt gytuno i hynny, oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol i wneud hynny.
3. Gofynnwch am gyngor os oes gennych unrhyw amheuaeth heb ddatgelu, pan fo'n bosibl, pwy yw'r unigolyn.
4. Rhannwch gyda chydysniad lle bo'n briodol a, lle bo modd, parchwch ddymuniadau'r rhai hynny nad ydynt yn cydsynio i rannu gwybodaeth gyfrinachol. Mae'n bosibl o hyd i chi

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

rannu gwybodaeth heb gydsyniad os, yn eich barn chi, y gellir diystyru'r diffyg cydsyniad er budd y cyhoedd. Bydd angen i chi seilio eich barn ar ffeithiau'r achos.

5. Ystyriwch ddiogelwch a lles: Seiliwch eich penderfyniadau yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau diogelwch a lles yr unigolyn a phobl eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt.
6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, cywir, amserol a diogel: Sicrhewch fod y wybodaeth rydych yn ei rhannu yn angenrheidiol at y diben o'i rhannu, ei bod yn cael ei rhannu â'r bobl hynny sydd ei hangen yn unig, ei bod yn gywir ac yn gyfredol, yn cael ei rhannu mewn modd amserol, ac yn cael ei rhannu'n ddiogel.
7. Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – p'run ai yw i rannu gwybodaeth ai peidio. Os byddwch yn penderfynu rhannu, yna cofnodwch yr hyn rydych wedi ei rannu, gyda phwy ac at ba ddiben.

28. (Cyf 42) Atodiad J - Y Broses ar gyfer holl Staff y Gwasanaeth Addysg

Diogelu – Rhoi Gwybod am Bryderon Diogelu

Proses i gael ei dilyn gan holl Staff y Gwasanaeth Addysg.

Adran 1

Pan fyddwch yn pryderu ynglŷn â 'phlentyn' pan yn gweithio mewn ysgol yn Sir Ddinbych, mae'n rhaid i'r staff roi gwybod am eu pryder i Arweinydd Diogelu Dynodedig yr Ysgol ar unwaith i gael cyngor ac o bosib bydd camau yn cael eu cymryd ac atgyfeirio yn digwydd i'r Gwasanaethau Plant.

Dylai'r holl staff wybod pwy yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig cyfredol yn yr ysgolion yr ydych yn eu cefnogi.

Dylid adrodd eich pryderon i'ch Arweinydd Tîm / Rheolwr hefyd pan fydd camau gweithredu yn cael eu cymryd i atgyfeirio achos (dylid cofnodi gohebiaeth drwy e-bost).

Adran 2

Pan fydd staff canolog yn dod yn ymwybodol o bryder ynglŷn â phlentyn y tu allan i'r ysgol h.y. ymweliad i'r cartref, gwaith asiantaeth ar y cyd, gwaith darparwr allanol, dylid rhoi gwybod i'ch

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Arweinydd Tîm / Rheolwr am y pryderon hyn ar unwaith a heb oedi. Yn absenoldeb eich Arweinydd Tîm / Rheolwr, mae'n rhaid i chi roi gwybod i un o'r swyddogion canlynol am eich pryderon

Swyddog Diogelu Addysg - Wayne Wheatley

Y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad / Unedau Cyfeirio Disgyblion, Pennaeth – Nicola Roberts

Rheolwyr Addysg – Mari Gaskell, Rheolwr Cynhwysiant Addysg

Ar 01824 708064

30. (Cyf 49) Atodiad K - Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg

Cyngor Sir Ddinbych

Strategaeth Hyfforddiant Diogelu Addysg

Strategaeth ar gyfer darparu Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chyngor gan y Swyddog Diogelu Addysg i Ysgolion a'r Gwasanaethau Addysg

Medi 2022 – Gorffennaf 2023

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Cyd-destun a Chanllawiau Cenedlaethol

- Hyfforddiant
- Cyngor a Chymorth
- Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

3. Hyfforddiant

- Darparu Hyfforddiant ar gyfer Staff Ysgol
- Darparu Hyfforddiant ar gyfer Staff y Gwasanaeth Addysg
- Cyngor a Chymorth
- Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

4. Cynllunio ar gyfer y dyfodol

- Hyfforddiant
- Cyngor a Chymorth
- Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

1. Cyflwyniad

Pwrpas y strategaeth hon yw darparu fframwaith ar gyfer gwasanaethau hyfforddiant, cefnogaeth a chynngor diogelu ar gyfer ysgolion a gwasanaethau addysg yn Sir Ddinbych. Pennir hyn gan y fframwaith gyfreithiol a'r canllawiau statudol, amcanion cynllun busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac yn unol â chylch gorchwyl BDGC.

Mae arfer Diogelu Plant a Recriwtio Mwy Diogel yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu cefnogaeth sy'n sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros ddiogelu plant, monitro eu perfformiad, sicrhau bod hyfforddiant priodol, polisiau a gweithdrefnau enghreifftiol ar gael, darparu cynngor a chefnogaeth, a hwyluso cysylltiadau a chydweithredu ag asiantaethau eraill, gwasanaethau statudol ac anstatudol.

Yn Sir Ddinbych mae'r gefnogaeth yn cael ei darparu gan y Swyddog Diogelu Addysg a gyflogir gan y Gwasanaethau Addysg a chanolbwyntir yn bennaf ar gadw plant yn ddiogel trwy gyfrannu at:

- Greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel ar gyfer plant a phobl ifanc
- Nodi lle y ceir pryderon ynghylch lles plant a chymryd y camau i ddelio â nhw, lle bo'n briodol, mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill, a
- Datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch plant trwy'r cwricwlwm.

2. Cyd-destun a Chanllawiau Cenedlaethol

Hyfforddiant

Mae adran 175 Deddf Addysg 2002 ar gyfer ysgolion a gynhelir yn nodi

Dylai Awdurdodau Addysg Lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a cholegau AB wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel **283/2022**: gweithredu ei bwerau dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

"Mae pawb yn y gwasanaeth addysg yn rhannu amcan i gynorthwyo i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy gyfrannu at:

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer plant a phobl ifanc i ddysgu mewn lleoliadau addysg, a

Nodi plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol a chymryd camau priodol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn ddiogel yn y cartref ac mewn lleoliad addysg".

Er mwyn galluogi staff i gyflawni'r gofynion uchod mae'r canllawiau yn egluro'r disgwyliadau o ran hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion. Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant mewn ysgolion a llywodraethwyr ysgolion, ymgymryd â hyfforddiant diogelu plant fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn effeithiol a dylai bod hyfforddiant atgoffa priodol hefyd ar gael i sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'r staff yn gyfredol. Dylai bod y staff hyn yn derbyn hyfforddiant atgoffa bob blwyddyn.

Mae'n rhaid i'r hyfforddiant diogelu hwn fynd y tu hwnt i bresenoldeb staff mewn sesiynau hyfforddi a drefnwyd gan ysgolion yn y dyfodol i sefyllfa sy'n galluogi'r gwasanaeth addysg ac ysgolion yn Sir Ddinbych i asesu eu staff drwy raglenni hyfforddi cynhwysfawr sy'n cynnig gwerthusiad o ddealltwriaeth staff. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau bod y gwasanaeth addysg ac ysgolion yn diwallu eu dyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. (Adran 175) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r ysgolion hefyd yn cyfrannu drwy'r cwricwlwm drwy ddatblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch y plant. Mae Estyn yn arolygu yn erbyn i ba raddau y mae ysgolion yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu. Mewn ysgolion mae pa mor effeithiol yr hyrwyddir diogelu'r dysgwyr yn raddfa gyfyngol ar effeithiolrwydd cyffredinol. Mae creu amgylchedd dysgu diogel yn golygu bod â threfniadau effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag amrediad o faterion.

Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau gofal a diogelu, iechyd a diogelwch disgyblion, bwlio, diogelwch yr ysgol, ymdrin â chyffuriau a chamddefnyddio sylweddau a darparu'r cyfle i blant drafod eu pryderon gyda staff sydd wedi eu hyfforddi'n dda sy'n deall yr agenda diogelu.

Cyngor a Chymorth

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 283/2022 Mae cylchlythyr cyfredol canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau darpariaeth:

- Polisiau a Gweithdrefnau Enghreifftiol
- Cyngor a chefnogaeth ynglŷn â diogelu
- Hwyluso cysylltiadau a chydweithrediad rhwng asiantaethau
- Cyngor a chefnogaeth ar gyfer staff dynodedig sy'n ymdrin ag achosion unigol
- Staff sy'n gallu gweithredu drwy ddefnyddio 'barn broffesiynol' i ddatrys unrhyw anawsterau

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Cefnogaeth ar gyfer y rhai gyda chyfrifoldeb arweiniol dynodedig ar gyfer “diogelu” ac annog a meithrin dealltwriaeth dda a pherthynas waith rhyngddynt hwy, gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant, a staff mewn **asiantaethau eraill sy’n ymwneud â diogelu plant er mwyn datblygu gwaith partneriaeth effeithiol**

Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 283/2022 yn nodi: -

“Dylai'r awdurdod lleol fonitro cydymffurfiaeth ysgolion a gynhelir â'r canllawiau hyn, yn arbennig o ran bodolaeth a gweithrediad polisiau a gweithdrefnau priodol a hyfforddiant staff, gan gynnwys yr unigolyn uwch gyda chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer diogelu. Dwyn unrhyw ddiffygion i sylw corff llywodraethu'r ysgol a'u cynghori ynglŷn â'r camau sydd eu hangen i'w datrys”.

“Gweithio i sicrhau bod sefydliadau sy'n gweithio neu'n cael cyswllt â phlant yn gweithredu arferion recriwtio ac adnoddau dynol sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant”.

1. Hyfforddiant

Hyfforddiant Ar Gyfer Holl Staff yr Ysgol

Ar-lein

Yr hyfforddiant sydd ar gael i ysgolion o fis Medi **2022** yw:

- HWB Llywodraeth Cymru (ar-lein) modiwlau hyfforddiant Diogelu:

Cyfarwyddiadau a dolen i wefan Hwb:

Ewch i'r ddolen ar y dudalen flaen Cadw'n Ddiogel Ar-lein, cliciwch ar yr eicon Hyfforddiant, modiwlau sydd ar gael i staff eu cwblhau

<https://hwb.gov.wales/>

Mae angen i ysgolion sicrhau bod proses fonitro a rhaglen flynyddol lle mae pob aelod o staff yn cwblhau rhaglen e-ddysgu Hwb Llywodraeth Cymru.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae'r rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar fodiwlau gydag asesiad wedi'i sgorio o ddealltwriaeth staff ar ddiwedd yr hyfforddiant.

Mae'n rhaid i'r holl staff gael marc pasio o 75% neu fwy ar raglenni HWB i gwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus. Bydd y wybodaeth hon yn ffurfio rhan o'r gwerthusiad y bydd tîm rheoli'r ysgol yn gallu ei weld a gweithredu arno os gwelir bod angen rhagor o hyfforddiant ar staff unigol.

Mae'n bosibl y bydd angen i staff nad ydynt yn llwyddo yn yr asesiad:

- Gwblhau'r rhaglen hyfforddi am yr eildro.
- Cwblhau modiwlau penodol yn unig.
- Dilyn hyfforddiant penodol wedi'i ddarparu gan yr ysgol ar y rhaglen hyfforddi h.y. cefnogaeth 1 i 1 / anghenion hyfforddi grŵp.
- Gael eu hatgyfeiro i AD os na all aelod unigol o staff basio'r gofyniad hyfforddi statudol ar gyfer y swydd.

Darpariaeth Hyfforddiant Diogelu at Gyfer Staff Ysgol a Llywodraethwyr:

Cwrs:	Grŵp Targed:	Dull o Ddarparu:	Darparwyd gan:	Amllder Angenrheidiol a/neu hyd
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol a Chyfrifoldebau staff unigol	Grŵp staff cyfan Staff newydd a Gwirfoddolwyr	Rhaglen Hwb Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys asesiad ac ardystiad	Hwb Llywodraeth Cymru Darparwr allanol	Blynyddol Wrth sefydlu staff a gwirfoddolwyr newydd

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

			a gymeradwywyd i ysgolion	
<p>Hyfforddiant Penodol ar gyfer</p> <p>Arweinwyr Diogelu Dynodedig</p> <p>a Phenaethiaid</p>	<p>Arweinwyr Diogelu Dynodedig</p>	<p>Hyfforddiant Timau Ar-lein Arweinydd Diogelu Dynodedig</p>	<p>Addysg Sir Ddinbych</p> <p>Hyfforddiant mewnol</p>	<p>Blynyddol ac yn ystod cwrs cyflwyno deiliaid swyddi newydd drwy fynediad agored i hyfforddiant ar-lein</p> <p>TEAMS</p>
<p>Llywodraethwr Ysgol â chyfrifoldeb penodol am Ddiogelu</p>	<p>Llywodraethwr yr Penodol</p> <p>Y Corff Llywodraethu Cyfan (Dewisol)</p>	<p>Rhaglen e-ddysgu</p> <p>Hwb Llywodraeth Cymru i gynnwys asesiad a thystysgrif</p> <p>Hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig / gweithdai</p>	<p>Hwb</p> <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Awdurdod Lleol</p>	<p>Dwywaith y flwyddyn</p> <p>Wrth sefydlu staff neu gwirfoddolwyr newydd</p> <p>Yn ôl yr angen</p>

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

<p>Hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig ar faterion penodol y gwnaed cais amdanynt gan glystyrau, adolygiadau Estyn</p> <p>ac archwiliadau diogelu</p>	<p>Ysgolion a nodwyd</p>	<p>Darperir drwy Gwrs a Ddysgir neu drwy gomisiynu</p> <p>Cefnogaeth ychwanegol fel sy'n briodol</p>	<p>Y Swyddog Diogelu</p>	<p>I'w gadarnhau yn seiliedig ar Ddadansoddia d o Anghenion Hyfforddi</p>
<p>Cwrs Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwysio</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu</p>	<p>Athrawon Newydd Gymhwysio</p>	<p>Sesiwn Ymwybyddiaeth Hyfforddiant Diogelu (Microsoft Teams)</p>	<p>Y Swyddog Diogelu</p>	<p>Awr</p>
<p>Hyfforddiant ar faterion penodol</p>	<p>Arweinwyr Diogelu Dynodedig Ysgolion</p>	<p>Gweithdai Adolygu Achos ac Ymdriniaeth Dysgu Sut i Weithredu</p>	<p>Y Swyddog Diogelu</p> <p>Uned Ddiogelu'r</p>	<p>I'w gadarnhau</p>

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

			Gwasanaethu Plant	
Offer archwilio Diogelu Ysgolion	Timau rheoli ysgolion	Cefnogi dadansoddiad o anghenion hyfforddi staff	Y Swyddog Diogelu	Yn flynyddol

Darparu Hyfforddiant ar gyfer Staff y Gwasanaeth Addysg

Hyfforddiant ymwybyddiaeth o Ddiogelu Sylfaenol a chyfrifoldebau unigol	Staff y Gwasanaeth Addysg	Rhaglen e-ddysgu gydag asesiad a thystysgrif	Hwb Llywodraeth Cymru	Blynyddol Wrth sefydlu staff newydd
Diogelu ar gyfer Rheolwyr / Arweinwyr Tîm Penaethiaid sydd newydd eu penodi	Timau Rheoli'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Addysg	Cwrs undydd Lefel 3 (Cwrs undydd Arweinyddiaeth Diogelu)	Hyfforddiant neu ddarparwr cymeradwy	Blynyddol ac yn ystod cwrs cyflwyno deiliaid swyddi newydd drwy gwrs mynediad agored

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

--	--	--	--	--

Cyngor a Chymorth

<p>Y Dudalen Addysg ar Wefan CSDd</p>	<p>Yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:</p> <p>Amserlen Hyfforddiant</p> <p>Dolenni i ddogfennau canllawiau a gweithdrefnau</p> <p>Polisiau enghreifftiol ar gyfer diogelu ac e-ddiogelwch</p> <p>Maes arfer da i rannu polisiau ac arfer mewn ysgolion</p> <p>Manylion cyswllt Cydlynwyr Amddiffyn Plant</p> <p>Archwiliad Diogelu Ysgolion</p> <p>Cyrsiau hyfforddi ar gael gan gynnwys diwrnodau astudio Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru</p>
--	---

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

	<p>Unrhyw gynadleddau a chyrsgiau allanol perthnasol</p> <p>Hyfforddiant ar y cyd wedi ei gomisiynu rhwng Addysg, Ysgolion a Gwasanaethau Plant</p>
Ymgynghoriadau Diogelu	<p>Fe fydd y Swyddog Diogelu yn ymweld ag ysgolion cyn arolygiadau Estyn i ddarparu cefnogaeth a sicrhau bod gweithdrefnau a gwaith papur yn dilyn arolwg yn drwyadl ac yn adlewyrchu canllawiau'r sir a chanllawiau cenedlaethol.</p> <p>Desg gymorth y Gwasanaeth Lles Addysg i Ysgolion</p> <p>Ar gael yn ddyddiol i ysgolion a'r Gwasanaethau Addysg am gyngor a phryderon yn ymwneud â chyfeirio</p> <p>Derbyn ac ymateb i alwadau uniongyrchol gan ysgolion a'r gwasanaethau addysg yn ymwneud ag ymholiadau diogelu neu ddarparu cyngor neu gyfeirio ar faterion unigol, materion diogelu neu honiad yn erbyn aelodau o staff.</p> <p>Cydgysylltu rhwng yr ysgol a gwasanaethau plant pan fo pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant wedi ei godi</p>

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

	<p>gan ba bynnag asiantaeth i gefnogi'r ysgol i sicrhau gweithredu ar unwaith.</p> <p>Rhif Cyswllt y Ddesg Gymorth: -01824 - 708064</p>
--	---

Gwerthuso, Effeithiolrwydd a Chydymffurfiaeth

Archwiliad Diogelu	<p>Adroddiad adborth archwiliad diogelu ysgolion i ysgolion yn cyfeirio at feysydd a nodwyd ar draws y sir sydd angen gwelliant neu ddadansoddiad bwllch fel rhan o gynlluniau gwella'r ysgol a'r awdurdod lleol yn ymwneud â diogelu.</p>
---------------------------	--

2. Anghenion Hyfforddiant Thematig a nodwyd ar gyfer 2022/23

Hyfforddiant

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Bydd cyngor penodol yn ymwneud â chomisiynu hyfforddiant mewn ymateb i adborth cyfredol gan Benaethiaid ac Arweinwyr Diogelu Dynodedig Ysgolion mewn ysgolion yn cael ei ddarparu yn y meysydd canlynol.

- Camfanteisio, Camdriniaeth rhwng Cyfoedion, cyflwyno'r fframwaith ar draws bob ysgol yn y sir.
- Polisi disgyblion sydd ar yr amserlen yn rhan amser – Cadw disgyblion yn ddiogel tra byddant ar amserleni rhan amser sydd wedi'u hannog gan yr ysgol.
- Rheoli sefyllfaoedd heriol gyda rhieni (Cyfraith Teulu) sy'n effeithio ar waith dyddiol ysgolion a chysylltu gyda chyngor penodol i deuluoedd gan y gwasanaeth Swyddog Lles Addysg a'r Gwasanaethau Cyfreithiol.
- Llais y Plentyn – Hyfforddiant ar gyfer staff a nodwyd sy'n mynychu cynadleddau, sy'n adolygu cyswllt dyddiol gyda chefnogaeth i blant mewn ysgolion.

Cyngor a Chefnogaeth i Ysgolion - Arolygon gan Estyn

- Byddwn yn sicrhau lle mae Estyn yn gwneud argymhellion o ran gwelliannau diogelu neu feysydd sydd angen sylw fel rhan o gynllun gweithredu ar ôl yr arolwg yn yr ysgol, bydd yr awdurdod addysg yn cynorthwyo'r ysgol gyda hyn a rhoi cynlluniau ar waith i fonitro newid sy'n bodloni'r awdurdod, Estyn, a'r esgobaeth lle bo'n berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys cynnig cefnogaeth barhaus i'r ysgolion hynny mewn mesurau arbennig neu sydd â chynlluniau gweithredu ar ôl arolwg i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn adroddiad arolwg yr ysgol.

Gwerthuso ac Effeithiolrwydd

- Bydd yr archwiliad diogelu yn cael ei adolygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn canllawiau, ynghyd ag unrhyw adolygiad o ddiogelu gan ymgynghorwyr allanol a gomisiynwyd gan y gwasanaeth addysg a'r adroddiad blynyddol i Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru.
- Caiff gwybodaeth o'r archwiliad ei mewnbynnu i archwiliad adran 28 a ddarperir i Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru o ran pob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant yn Sir Ddinbych ar eu heffeithiolrwydd wrth ddiogelu plant.
- Effeithiolrwydd darpariaeth hyfforddiant – mae ffurflenni gwerthuso'n cael eu llenwi ar ddiwedd pob hyfforddiant a bydd yr wybodaeth yn parhau i gael ei hadolygu'n flynyddol yn ychwanegol at unrhyw ymateb uniongyrchol y gellir ei weithredu.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

- Mae hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer adolygiad parhaus y strategaeth hyfforddiant ac unrhyw newidiadau i'r cynllun hyfforddi.
- Bydd yr adborth o'r ffurflenni gwerthuso'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol i Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

31. (Cyf 58) Atodiad L – Manylion Cyswllt y Porth Cefnogaeth Plant a Theuluoedd

Bydd y tîm hwn yn gyfrifol am ymateb i'r holl geisiadau am wybodaeth a chynghor ynghyd â rheoli atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon sy'n gysylltiedig â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd angen i unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud ag oedolion yn unig gael eu cyfeirio i'r Pwynt Mynediad Sengl newydd.

Gellir canfod y manylion cyswllt ar gyfer y timau isod.

Ymholiadau neu atgyfeiriadau sy'n ymwneud â <i>Phlant</i>	Ymholiadau neu atgyfeiriadau sy'n ymwneud ag <i>Oedolion</i>
<p data-bbox="363 1272 497 1361"></p> <p data-bbox="92 1377 742 1556">Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd Ffôn: 01824 712200 Ffacs: 01824 712233 E-bost: cfsgateway@denbighshire.gov.uk</p>	<p data-bbox="1098 1272 1232 1361"></p> <p data-bbox="826 1377 1396 1556">Un Pwynt Mynediad i Oedolion Ffôn: 0300 4561000 Ffacs: 01824 712888 E-bost: spoa@denbighshire.gov.uk</p>
<p data-bbox="103 1691 1497 1870">Bydd llif gwybodaeth reolaidd rhwng y ddau dîm o ran teuluoedd diamddiffyn. Fodd bynnag, os bydd ymholiad neu atgyfeiriad yn ymwneud â phlant ac oedolion, byddai'n ddefnyddiol copïo unrhyw negeseuon e-bost i'r ddau</p>	

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

32. (Cyf 59) Atodiad M – Beth yw diogelu – cynradd

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

BETH YW DIOGELU?

Dy gadw DI yn ddiogel a hapus

Brifo 

Poeni 

Bywyd teuluol 

Gwaith ysgol 

Trist 

Os wyt Ti poeni neu'n ofnus o unrhyw beth; NEU OS oes gen Ti gyfrinach sy'n gwneud i Ti boeni



Fyddi di byth yn mynd i helynt am rannu dy bryderon

Seiber-fwlio 

Profion 

Mynd i ffwrdd o adre 

Mynd i ysgol newydd 

- Gelli DI siarad efo unrhyw oedolyn yn yr ysgol Ti ymddiried yn ddo; byddant yn gwrandao ac yn dy helpu
- Weithiau byddant yn gorfod dweud wrth rywun arall; os wyt Ti mewn perygl

Cyfrinach 

Cartref 

Ofn 

Os na all DI siarad efo rhywun yn yr ysgol, galli di siarad â ffrind, teulu, neu unrhyw oedolyn yr wyt Ti ymddiried yn ddo, neu ffonio Childline

Blwch poeni
Cofia gelli DI
bestio dy
bryderon hefyd

Dryslyd 

Poeni 

ChildLine

0800 1111 

Bwlio 

“Ysgol.....yma i dy amddiffyn di!”

Dydemysyd gan a gadau blaith i ddilysdebion – Ysgol Christchurch, St Joseph NP School, Ysgol Beres GS, Ysgol Bro Cemeirch, Ysgol Bro Dyffilydd, Ysgol Bro Eileens, Ysgol Bro Cled, Ysgol Carning Sionys, Ysgol Carning, Ysgol Cae Drenewn, Ysgol Eglwys Morgann, Ysgol Gellŷic, Ysgol Llywelyn, Ysgol Pont Fawntwyn, Ysgol Penrhos, Ysgol Rhos, Ysgol Treveinches, Ysgol Trefn o'r Nant, Ysgol y Castell, Ysgol y Parc

Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant